# Cynllun Cydraddoldeb Strategol

# 2016 - 2020

**Gallwch ofyn am gael y ddogfen hon mewn fformatau eraill fel print bras, neu ar bapur o liw gwahanol.**

# Cynnwys


1.Pwrpas y Cynllun ........ 1

2.Cyngor Bro Morgannwg ........ 3

3.Cysylltiadau â'n Cynllun Corfforaethol ........ 4

4.Gwybodaeth am Gydraddoldeb ........ 7

5.Amcanion cydraddoldeb – beth rydym wedi'i wneud 2012 - 2016 ........ 9

6.Amcanion cydraddoldeb – beth fyddwn yn ei wneud 2016 – 2020 ........ 16

1. Casglu a dadansoddi data gwasanaethau ar sail nodweddion gwarchodedig fel y bydd gwasanaethau'n cwrdd ag anghenion amrywiol y cyhoedd ........ 17
2. Cau bylchau cyrhaeddiad y plant mewn grwpiau gwarchodedig ........ 22
3. Gwneud dogfennau cyhoeddus yn haws eu darllen a'u deall ........ 25
4. Helpu staff i wybod mwy am gyfraith cydraddoldeb, a helpu staff a'r cyhoedd i ddeall anghenion y grwpiau gwarchodedig ........ 28
5. Gofyn i grwpiau gwarchodedig am eu barn am newidiadau arfaethedig mewn polisi, cyllidebau a gwasanaethau ........ 32
6. Cymell pobl sydd â nodweddion gwarchodedig i roi gwybod am droseddau casineb, aflonyddu a gwahaniaethu ........ 36
7. Dod o hyd i ffyrdd newydd o gyrraedd rhai sy'n dioddef cam-drin domestig a hybu ymwybyddiaeth o wasanaethau cam-drin domestig yn y gymuned... 42
8. Lleihau'r bwlch cyflog rhwng y rhyweddau a gwella'r cyfleoedd am waith i grwpiau gwarchodedig ........ 45

7.Effaith yr amcanion ar nodweddion gwarchodedig ........ 50

8.Monitro a chyhoeddi canlyniadau ........ 51

9.Asesu effeithiau ........ 52

10.Hyfforddiant ........ 53

11.Enghreifftiau o arferion da ........ 54

Atodiad 1 ........ 56

Adroddiad ar ymgysylltu ynghylch amcanion cydraddoldeb ........ 56

# 1. Pwrpas y Cynllun

Pwrpas y Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn yw disgrifio beth rydym yn ei wneud i gyflawni ein dyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, gan gynnwys Dyletswydd Cyfrifoldeb y Sector Cyhoeddus (dyletswydd gyffredinol) a'r dyletswyddau penodol i Gymru.

Mae dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus yn cynnwys wyth nodwedd warchodedig:

| | |
|---|---|
| Oed | Hil |
| Anabledd | Crefydd neu Gred |
| Ailbennu Rhywedd | Rhyw |
| Beichiogrwydd a Mamolaeth | Cyfeiriadedd Rhywiol |

Mae'n gymwys i briodas a phartneriaeth sifil, ond dim ond er mwyn rhoi sylw dyladwy i'r angen i ddileu gwahaniaethu.

Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn rhestru cynghorau ymhlith yr awdurdodau cyhoeddus sydd â dyletswyddau penodol. Oherwydd hyn, wrth gyflawni ein swyddogaeth gyhoeddus, rhaid i ni roi sylw dyladwy i'r anghenion canlynol:

- dileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth a mathau eraill o ymddygiad sydd wedi'u gwahardd gan y Ddeddf;

- hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r rheini nad ydynt;

- meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r rheini nad ydynt.

Mae rhoi sylw dyladwy i hyrwyddo cydraddoldeb yn golygu:

- dileu neu leihau anfanteision y mae pobl yn eu profi oherwydd eu nodweddion gwarchodedig;

- cymryd camau i gwrdd ag anghenion pobl mewn grwpiau gwarchodedig os yw'r rhain yn wahanol i anghenion pobl eraill;

- cymell pobl sydd â nodweddion gwarchodedig i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus neu mewn gweithgareddau eraill lle mae lefel eu cyfranogiad yn isel ar gyfartaledd.

Mae'r dyletswyddau penodol yn cynnwys y camau y mae'n rhaid eu cymryd gan awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru i ddangos eu bod yn rhoi sylw dyladwy i'r ddyletswydd gyffredinol.  Maent yn cwmpasu:

| | |
|---|---|
| Amcanion | Hyfforddi staff |
| Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol | Caffael |
| Ymgysylltu | Adroddiadau blynyddol |
| Asesu effeithiau | Cyhoeddi |
| Gwybodaeth am gydraddoldeb | Adrodd gan Weinidogion Cymru |
| Gwybodaeth am gyflogaeth | Adolygu |
| Gwahaniaethau cyflog | Hygyrchedd |

Yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn, rydym yn egluro'r camau rydym yn eu cymryd, ac yn bwriadu eu cymryd, i gyflawni'r dyletswyddau hyn.

Er mwyn pennu'r blaenoriaethau, rydym wedi defnyddio ymchwil gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ac adborth gan bobl sy'n byw ym Mro Morgannwg.  Rydym yn bwriadu defnyddio'r wybodaeth hon i'n helpu i wella ein ffyrdd o ddarparu gwasanaethau a chyflogi pobl.

## 2. Cyngor Bro Morgannwg

Mae ardal Cyngor Bro Morgannwg yn cynnwys 33,097 o hectarau a 53 cilometr o arfordir gan gynnwys 19 cilometr o Arfordir Treftadaeth. Ceir canolfannau trefol a chymunedau gwledig ym Mro Morgannwg, a phoblogaeth amrywiol.

Rhaid cymhwyso egwyddorion y ddyletswydd gyffredinol at yr ystod eang o wasanaethau rydym yn eu darparu. Mae'r gwasanaethau hyn yn cynnwys:

| | |
|---|---|
| **Byw**<br>Ailgylchu a Gwastraff<br>Traffig a Phriffyrdd<br>Cynllunio a rheoli adeiladu<br>Ysgolion<br>Tai<br>Yr Amgylchedd<br>Trafnidiaeth<br>Gofal Cymdeithasol | **Gweithio**<br>Ardrethi busnes<br>Addysg a sgiliau<br>Adfywio<br>Trwyddedu<br>Cymorth i fusnesau<br>Iechyd yr amgylchedd<br>Safonau masnach |
| **Mwynhau**<br>Canolfannau Cymuned<br>Yr Arfordir<br>Parciau a Gerddi<br>Celfyddydau a Diwylliant<br>Digwyddiadau<br>Hamdden a Gweithgareddau<br>Llyfrgelloedd<br>Ymweld â'r Fro | **Ein Cyngor**<br>Ymgynghori<br>Cwynion a chanmoliaeth<br>Budd-dal Tai<br>Swyddfa'r Wasg<br>Y Cyngor<br>Y Dreth Gyngor<br>Swyddi<br>Eiddo ar werth neu ar osod |

Rydym am sicrhau bod pawb ym Mro Morgannwg yn gallu cael mynediad teg a chyfartal at y gwasanaethau hyn. Rydym hefyd am iddynt gael eu trin mewn ffordd deg a chyson wrth ymwneud â ni a chael eu cyflogi gennym.

## 3. Cysylltiadau â’n Cynllun Corfforaethol

Rydym am sicrhau bod ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2016 – 2020 wedi’i gysylltu â’n Cynllun Corfforaethol 2016 – 2020 a ddiwygiwyd yn ddiweddar.

Mae’r Cynllun Corfforaethol yn rhoi gwybod i chi am ein gweledigaeth ar gyfer Bro Morgannwg, ein gwerthoedd a’n prif flaenoriaethau. Bydd blaenoriaethau’r Cynllun Corfforaethol yn helpu i wneud cymunedau ym Mro Morgannwg yn fwy cyfartal. Bydd yr amcanion cydraddoldeb yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn yn hyrwyddo’r gwaith hwn ac mae’n bwysig bod y ddau gynllun yn ategu ei gilydd.

Yn ein Cynllun Corfforaethol 2016 – 2020, rydym yn egluro ein gweledigaeth a’n gwerthoedd.

Ein gweledigaeth yw:

**Cymunedau cryf â dyfodol disglair.**

Ein gwerthoedd yw:

| | |
|---|---|
| **Uchelgeisiol** | Blaengar, derbyn ffyrdd newydd o weithio a buddsoddi yn ein dyfodol. |
| **Agored** | Yn barod i ystyried syniadau gwahanol a bod yn atebol am y penderfyniadau rydym yn eu gwneud. |
| **Gyda’n Gilydd** | Cydweithio fel tîm sy’n ymgysylltu â’n cwsmeriaid a’n partneriaid, yn parchu amrywiaeth ac sydd wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaethau o ansawdd da. |
| **Balch** | Yn falch o Fro Morgannwg: yn falch o wasanaethu ein cymunedau ac o fod yn rhan o Gyngor Bro Morgannwg. |

Mae ein gwerthoedd yn gyson â'r pum ffordd o weithio sy'n rhan ganolog o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Maent yn werthoedd tymor hir sy'n gweithio gyda'i gilydd ac yn golygu gweithio gydag eraill. Bydd ein gwerthoedd yn ein helpu i ganolbwyntio'n fwy ar fesurau atal wrth i ni weithio i wireddu ein gweledigaeth.

Mae ein blaenoriaethau corfforaethol yn rhoi sylw i ofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Rydym wedi gweithredu'n rhagweithiol ac wedi dechrau cymryd y camau hyn cyn i ofynion y Ddeddf ddod i rym.

Ein canlyniadau llesiant yw:

| | |
|---|---|
| **Bro Morgannwg gynhwysol a diogel** | Mae dinasyddion Bro Morgannwg yn mwynhau ansawdd bywyd da ac yn teimlo'n rhan o'r gymuned leol. |
| **Bro Morgannwg ffyniannus ac amgylcheddol gyfrifol** | Mae economi Bro Morgannwg yn gryf a chynaliadwy ac mae'r amgylchedd lleol yn cael ei ddiogelu ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol. |
| **Bro Morgannwg uchelgeisiol a bywiog ei diwylliant** | Mae holl ddinasyddion Bro Morgannwg yn cael cyfleoedd i wireddu eu potensial. |
| **Bro Morgannwg iach a gweithgar** | Mae preswylwyr Bro Morgannwg yn byw bywyd iach ac mae pobl sy'n agored i niwed yn cael eu hamddiffyn a'u cefnogi. |

Rydym wedi ymrwymo o hyd i sicrhau bod pawb ym Mro Morgannwg yn gallu cael mynediad teg a chyfartal at wasanaethau a chyflogaeth. Byddwn yn ymgysylltu â phobl er mwyn deall eu hanghenion ac yn blaenoriaethu gwasanaethau'n unol â hynny.

Bydd blaenoriaethau ein Cynllun Corfforaethol yn ein helpu i gyfrannu at nod llesiant Llywodraeth Cymru o greu Cymru fwy cyfartal:

- Lleihau tlodi ac allgáu cymdeithasol
- Hyrwyddo datblygu cynaliadwy a diogelu ein hamgylchedd
- Darparu cartrefi gweddus a chymunedau diogel gan hyrwyddo adfywio, twf economaidd a chyflogaeth
- Gwella safonau cyflawniad cyffredinol
- Gwerthfawrogi diwylliant ac amrywiaeth
- Hybu a hyrwyddo ffyrdd iach a gweithgar o fyw
- Diogelu'r rheini sy'n agored i niwed a hyrwyddo byw'n annibynnol.

Mae'r amcanion cydraddoldeb yn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn ategu nifer o'r camau gweithredu ar gyfer y blaenoriaethau hyn drwy ofyn i wasanaethau gasglu a dadansoddi data a chynnwys pobl wrth ddatblygu ac adolygu gwasanaethau a chyllidebau ac wrth wneud penderfyniadau.

## 4. Gwybodaeth am Gydraddoldeb

Rydym wedi casglu'r wybodaeth sydd ei hangen i lunio'r cynllun hwn a'r amcanion cydraddoldeb o nifer o ffynonellau gwahanol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Adroddiadau'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ar ymchwil genedlaethol 'How Fair is Britain?' 2011, 'Is Britain Fairer?' 2015, 'Pa Mor Deg yw Cymru?' 2011, 'A yw Cymru'n Decach?' 2015, a 'Not Just Another Statistic';

- gwybodaeth o ddogfennau'r Cyngor fel ein Cynllun Corfforaethol;

- gwybodaeth a data lleol;

- ymgynghori;

- adborth gan bobl sy'n cynrychioli un neu ragor o'r grwpiau gwarchodedig a gafwyd drwy ymgynghori ac ymgysylltu rhwng Hydref a Rhagfyr 2015.

Mae 'A yw Cymru'n Decach?' (2015) yn diweddaru'r ymchwil yn 'Pa Mor Deg yw Cymru?' (2011). Casglwyd gwybodaeth ar gyfer 'Pa Mor Deg yw Cymru?' yn 2008. Casglwyd gwybodaeth ar gyfer 'A yw Cymru'n Decach?' yn 2013. Mae 'A yw Cymru'n Decach?' yn asesu'r newidiadau rhwng 2008 a 2013 ar sail tystiolaeth.

Yn Atodiad 1, mae adroddiad sy'n rhoi crynodeb o'r adborth a gafwyd o'n gwaith ymgynghori ac ymgysylltu. Rydym wedi ystyried y wybodaeth hon, ynghyd â thystiolaeth genedlaethol o ymchwil, wrth benderfynu ar y camau a gymerwn i gyrraedd ein hamcanion rhwng 2016 a 2020.

Rydym wedi ymrwymo i wella ein ffyrdd o gasglu a dadansoddi data. Rydym am ddatblygu dull cyson o weithredu ar draws ein gwasanaethau er mwyn llenwi bylchau yn ein gwybodaeth. Dyma pam rydym wedi gosod amcan cydraddoldeb ar gyfer gwella yn y maes hwn. Mae angen i ni wneud hyn er mwyn cael gwybodaeth am gydraddoldeb a chyflogaeth.

Rydym wedi rhoi gwybod i chi am y data sydd gennym yn ein hadroddiadau blynyddol ar fonitro cydraddoldeb.  Rydym yn cyhoeddi'r wybodaeth hon ar y tudalennau Cydraddoldeb ar ein gwefan.

## 5. Amcanion cydraddoldeb – beth rydym wedi'i wneud 2012 - 2016

Rhaid i ni osod a chyhoeddi amcanion cydraddoldeb bob pedair blynedd o leiaf. Rhaid i ni ddatblygu amcanion drwy gynnwys pobl sy'n cynrychioli un neu ragor o'r grwpiau gwarchodedig. Mae nodweddion gwarchodedig y grwpiau hyn wedi'u rhestru uchod (tudalen 1).

Yn 2011, roeddem wedi gofyn i bobl am eu barn am yr amcanion y dylem eu gosod ac wedi siarad â nhw am yr ymchwil genedlaethol a oedd ar gael bryd hynny. Roedd yr adborth a gawsom ganddynt yn awgrymu bod ein hamcanion drafft yn briodol ac yn rhoi sylw i faterion a oedd yn flaenoriaeth i breswylwyr Bro Morgannwg. Roedd yn ymddangos bod canlyniadau'r ymgynghoriad yn cadarnhau bod yr ymchwil genedlaethol a ystyriwyd wrth ddatblygu'r amcanion drafft yn adlewyrchu profiad preswylwyr Bro Morgannwg.

Roedd y rhai a oedd wedi'u cynnwys yn yr ymgynghoriad yn credu ei bod yn bwysig ein bod yn ysgrifennu'r amcanion mewn ffordd:

- sy'n hawdd ei deall;
- sy'n adlewyrchu'r materion a oedd wedi'u crybwyll amlaf;
- sy'n dangos sut y byddwn yn eu cyflawni;
- sy'n dweud sut y byddwn yn asesu a monitro cynnydd;
- sy'n dweud wrth bobl sut y byddwn yn rhoi'r wybodaeth hon iddyn nhw.

Cytunwyd yn gyffredinol fod nifer o gamau gweithredu a fyddai'n helpu'r holl bobl sydd â nodweddion gwarchodedig ac y dylem roi blaenoriaeth i'r rhain. Y camau hyn oedd:

- gwella'r ddealltwriaeth o'r materion sy'n effeithio ar bobl sydd â nodweddion gwarchodedig;
- gwella'r ddealltwriaeth o bwy sy'n defnyddio gwasanaethau;

- gwella'r ffyrdd o gael gafael ar wasanaethau;
- creu mwy o hyder i roi gwybod am wahaniaethu ac aflonyddu.

Roeddem wedi ystyried hyn wrth ddatblygu ein hamcanion ar gyfer Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2012 – 2016.

Yn ogystal â hyn, roedd yn rhaid i ni osod amcan cydraddoldeb i ddelio â bwlch cyflog rhwng y rhyweddau os oedd un. Rhaid i'r amcan hwn roi sylw i achosion y gwahaniaeth rhwng cyflogau os yw'n ymddangos yn rhesymol debygol ei fod yn gysylltiedig â rhywedd.

Wrth ddatblygu ein set gyntaf o amcanion cydraddoldeb, roeddem yn gwybod bod bwlch cyflog rhwng y rhyweddau gennym ac felly y byddai'n rhaid i ni osod amcan cydraddoldeb i geisio cau'r bwlch hwnnw.

Roeddem eisoes wedi cynnal asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb o'n proses gwerthuso swyddi a'n strwythur cyflogau a graddio arfaethedig. Roeddem wedi nodi y byddai bwlch cyflog rhwng y rhyweddau o 10.94%, a oedd yn llai o lawer na'r hyn a welwyd mewn cynghorau tebyg ac yn debyg i'r ffigurau o'r Arolwg Blynyddol o Enillion Aelwydydd ar gyfer yr economi gyfan. Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn disgwyl i sefydliadau sector cyhoeddus ymchwilio i fylchau o fwy na 5%.

Mae'r broses gwerthuso swyddi'n sicrhau bod dull teg a systematig o benderfynu ar y cyflog ar gyfer swydd ond nid yw'n gallu delio â materion sy'n codi o ganlyniad i wahanu galwedigaethol.

Y prif reswm dros barhad y bwlch cyflog oedd cyfansoddiad y gweithlu – 76% yn fenywod a 24% yn ddynion, a chyfran fwy o gyflogeion benywaidd mewn nifer llai o swyddi ar y lefelau isaf yn y strwythur cyflogau.

Ceir gwahanu galwedigaethol pan fydd cyfran fawr o ddynion neu fenywod mewn gwahanol fathau o swyddi (gwahanu llorweddol) neu ar wahanol raddau (gwahanu fertigol). Bydd y mathau hyn o wahanu'n digwydd am nifer o resymau, gan gynnwys:

- stereoteipio ar sail rhywedd – lle mae dynion a menywod yn gweithio mewn swyddi y mae dynion a menywod wedi gweithio ynddynt yn draddodiadol, lle mae'r swyddi a gyflawnir gan fenywod ar raddau cyflog is fel arfer;

- gweithio anhyblyg – lle mae menywod sydd â phlant neu gyfrifoldebau gofalu'n wynebu cyfyngiadau wrth ddod o hyd i waith sy'n caniatáu iddynt gyflawni eu dyletswyddau gofalu, fel eu bod yn aml yn gorfod cymryd gwaith rhan-amser ar gyflog isel.

Nid ydym yn gallu trechu'r amrywiaeth fawr o ffactorau mewn cymdeithas sy'n arwain at wahanu galwedigaethol a gwahaniaeth cyflog rhwng y rhyweddau. Er hynny, gallwn chwarae rhan drwy bennu beth mae'n rhesymol i ni ei wneud o fewn cwmpas ein gwaith.

Rhwng 2012 a 2016, mae ein set gyntaf o amcanion wedi ein helpu i wneud cynnydd da. Dyma grynodeb o beth rydym wedi'i wneud.

| **Amcanion 2012 - 2016** | **Beth rydym wedi'i wneud** |
|---|---|
| 1. Casglu a chyhoeddi data i weld pa bobl mewn grwpiau gwarchodedig sy'n defnyddio, neu sydd heb ddefnyddio, ein gwasanaethau.<br><br>Defnyddio'r wybodaeth hon i wella'r ffordd y mae pobl yn gallu defnyddio gwasanaethau. | Rydym wedi cyflwyno ffurflen gorfforaethol ar gyfer casglu data fel bod dull cyson ar draws ein gwasanaethau.<br><br>Roeddem wedi dechrau gweithio gyda grŵp o wasanaethau craidd i gasglu a dadansoddi gwybodaeth am nodweddion gwarchodedig bob blwyddyn. Rydym wedi cynyddu nifer y gwasanaethau sy'n adrodd ar hyn yn y pedair blynedd diwethaf.<br><br>Rydym wedi darparu hyfforddiant ar ddadansoddi data i helpu gwasanaethau i ddefnyddio'r wybodaeth hon yn fwy |

| | |
|---|---|
| | effeithiol.<br><br>Bob blwyddyn, rydym yn adrodd ar ddata sy'n dangos pa grwpiau gwarchodedig sy'n defnyddio ein gwasanaethau. Rydym yn rhoi'r adroddiad hwn ar ein gwefan. Rydym wedi gwella'r wybodaeth hon bob blwyddyn. |
| 2. Gwella'r cyngor ar sut i ysgrifennu ar gyfer y cyhoedd fel bod pobl yn gallu deall y wybodaeth rydym yn ei rhoi iddynt. | Rydym wedi gwella ein canllawiau a'u rhoi ar dudalen we i'w defnyddio gan staff.<br><br>Rydym wedi rhoi gwybod i staff am y canllawiau drwy wahanol ddulliau briffio.<br><br>Rydym yn diweddaru ein cwrs hyfforddi ar ddefnyddio iaith glir. Bydd y cwrs yn rhoi gwybod i bobl am y canllawiau hyn. |
| 3. Helpu staff i ddeall dyletswyddau cydraddoldeb y sector cyhoeddus. Helpu staff a'r cyhoedd i ddeall anghenion pobl sydd â nodweddion gwarchodedig. | Rydym wedi dadansoddi anghenion am hyfforddiant ar gydraddoldeb ac wedi rhoi rhaglen hyfforddi ar waith i gwrdd ag anghenion staff.<br><br>Rydym wedi datblygu cyrsiau hyfforddi, modiwlau e-ddysgu a chanllawiau ysgrifenedig fel bod staff yn gallu cael gwybod beth mae angen iddynt ei wybod am gyfraith cydraddoldeb.<br><br>Rydym yn rhoi gwybod i'r cyhoedd am faterion sy'n effeithio ar bobl mewn grwpiau gwarchodedig. Rydym yn gwneud hyn mewn nifer o ffyrdd gan gynnwys gosod |

| | |
|---|---|
| | posteri yn ein derbynfa, cynnal ymgyrchoedd ar gyfryngau cymdeithasol, defnyddio TREV (cerbyd ar gyfer ymgysylltu) mewn cymunedau, a mynychu digwyddiadau. |
| 4. Darparu cyngor ar ffyrdd o ymgysylltu ac ymgynghori â phobl mewn grwpiau gwarchodedig ynghylch newidiadau mewn gwasanaethau. | Rydym wedi darparu canllawiau newydd ar gyfer ymgysylltu â phobl. Rydym wedi cytuno i fabwysiadu'r Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru.<br><br>Rydym yn siarad â phobl ac yn gofyn am eu barn pan fyddwn yn gwneud newidiadau mewn gwasanaethau. Yn benodol, byddwn yn ymgysylltu'n aml â fforwm Vale 50+ (ein fforwm i bobl hŷn) a'r Cabinet Ieuenctid. |
| 5. Cynyddu'r defnydd o'r llinell gymorth troseddau casineb a'r system gwynion i roi gwybod am aflonyddu a gwahaniaethu. | Rydym wedi gosod posteri, wedi rhoi gwybod i bobl am droseddau casineb mewn cyfarfodydd a digwyddiadau, ac ar ein gwefan. Rydym yn gwirio nifer yr adroddiadau am droseddau casineb.<br><br>Rydym wedi hyrwyddo'r Llinell Cymorth i Ddioddefwyr ers i Lywodraeth Cymru ei hariannu i redeg gwasanaeth cenedlaethol i Gymru.<br><br>Rydym wedi dechrau edrych ar nifer y cwynion a gawn gan bobl sydd â nodweddion gwarchodedig. Rydym yn adrodd ar hyn. |

| | |
|---|---|
| 6. Cynyddu ymwybyddiaeth a hyder i ddefnyddio gwasanaethau cymorth cam-drin domestig. | Rydym yn gweithio mewn partneriaeth ag Atal y Fro ac eraill. Rydym wedi rhoi cynllun ar waith i atal cam-drin domestig, cynorthwyo dioddefwyr a chynyddu ymwybyddiaeth ac adrodd am gam-drin domestig.<br><br>Rydym wedi cynnal ymgyrchoedd fel 'Y tu ôl i ddrysau caeedig' ac ymgyrchoedd y 'Rhuban Gwyn'.<br><br>Rydym wedi rhoi polisi ar waith yn y gweithle i helpu rheolwyr a staff i ddelio â cham-drin domestig.<br><br>Rydym yn gweithio i wella data. |
| 7. Datblygu cynllun gweithlu gyda chamau gweithredu i leihau'r bwlch cyflog rhwng y rhyweddau a gwirio cynnydd. | Rydym wedi mabwysiadu cynllun gweithlu i helpu i sicrhau bod cyflogeion y Cyngor yn adlewyrchu'r gymuned. Mae hyn yn cynnwys camau i leihau'r bwlch cyflog rhwng y rhyweddau. Rydym yn edrych ar ddata i wirio cynnydd.<br><br>Mae'r bwlch cyflog rhwng y rhyweddau wedi lleihau yn y ddwy flynedd diwethaf o 9.95% i 9.80%.<br><br>Yn ein hadroddiadau blynyddol ar gydraddoldeb, rydym wedi adrodd ar wahanol fathau o wybodaeth am gyflogaeth: cyflogau i ddynion a menywod; grwpiau oedran gwahanol, ailbennu |

| | |
|---|---|
| | rhywedd, hunaniaeth genedlaethol, hil ac ethnigrwydd, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, cred grefyddol, statws priodasol a gallu o ran y Gymraeg. |

# 6. Amcanion cydraddoldeb – beth fyddwn yn ei wneud 2016 – 2020

Rhwng 28 Hydref a 18 Rhagfyr 2015, roeddem wedi ymgynghori ac ymgysylltu eto â phobl a sefydliadau. Roeddem wedi dweud wrth bobl beth oedd ein hamcanion ar gyfer y pedair blynedd diwethaf a beth roeddem wedi'i wneud i gael cynnydd. Gofynnwyd am eu barn ynghylch yr amcanion y dylem eu gosod ar gyfer y dyfodol.

Ar gyfer pob amcan cydraddoldeb, rydym yn rhoi gwybod i chi am:

- y camau a gymerwn i'w gyflawni;
- pam roeddem wedi dewis yr amcan yn wreiddiol (gan roi gwybod i chi am y dystiolaeth a oedd ar gael bryd hynny);
- tystiolaeth ddiweddar gan gynnwys adborth o'n gwaith ymgynghori ac ymgysylltu ac ymchwil genedlaethol yng Nghymru;
- pa nodweddion gwarchodedig y mae'n eu cynnwys.

Yn yr adborth a gawsom wrth ymgynghori ac ymgysylltu, roedd mwyafrif y bobl a sefydliadau yn dymuno i ni barhau i weithio ar yr un amcanion cydraddoldeb. Rydym wedi ystyried adborth wrth ddatblygu camau gweithredu i'n helpu i wneud rhagor o gynnydd.

Rhaid i ni osod amcan cydraddoldeb hefyd ar gau'r bwlch cyflog rhwng y rhyweddau oherwydd, er ei fod wedi lleihau, mae'n bodoli o hyd.

Rydym wedi rhoi blaenoriaeth i'r amcanion canlynol.

## 1. Casglu a dadansoddi data gwasanaethau ar sail nodweddion gwarchodedig fel y bydd gwasanaethau'n cwrdd ag anghenion amrywiol y cyhoedd

| **Sut y byddwn yn gwneud hyn?** | | |
|---|---|---|
| **Cam Gweithredu** | **Gan Bwy** | **Amserlen** |
| 1. Cynyddu nifer y gwasanaethau sy'n casglu a dadansoddi data ar sail nodweddion gwarchodedig er mwyn:<br><br>• dangos pwy sy'n defnyddio ein gwasanaethau;<br><br>• cael gwybod pwy nad yw'n defnyddio ein gwasanaethau;<br><br>• cael gwybod am rwystrau i wasanaethau;<br><br>• cael gwybod a oes bylchau mewn gwybodaeth;<br><br>• cael gwybod am yr effaith ar bobl sydd â mwy nag un nodwedd warchodedig;<br><br>• gwella mynediad at wasanaethau;<br><br>• gwella bodlonrwydd ar wasanaethau;<br><br>• sicrhau bod gwasanaethau'n cwrdd ag anghenion grwpiau gwarchodedig. | Penaethiaid Gwasanaeth<br><br>Swyddog Cydraddoldeb Corfforaethol | 2016 – 2020<br><br>Adrodd ar gynnydd bob blwyddyn |
| 2. Cyhoeddi'r wybodaeth bob blwyddyn a dangos sut rydym wedi defnyddio'r wybodaeth i wneud | Penaethiaid Gwasanaeth | 2016 - 2020 |

| | | |
|---|---|---|
| newidiadau mewn gwasanaethau.<br><br>Cynnwys y wybodaeth hon yn ein hadroddiadau blynyddol ar gydraddoldeb a'i chyhoeddi ar ein gwefan. | Swyddog Cydraddoldeb Corfforaethol | Adrodd ar gynnydd bob blwyddyn |
| 3. Ystyried y wybodaeth a gasglwyd wrth lunio asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb a'u cyhoeddi. | Penaethiaid Gwasanaeth<br><br>Swyddog Cydraddoldeb Corfforaethol | 2016 – 2020<br><br>Adrodd ar gynnydd bob blwyddyn |

| **Pam y byddwn yn gwneud hyn?** |
|---|
| **Ffynhonnell: Digwyddiadau ymgysylltu'r Cyngor, Tachwedd 2011** |

Y pryd hwnnw, roedd pobl yn credu:

- ei bod yn bwysig casglu gwybodaeth i gael gwybod a oes gwahaniaethu neu rwystrau rhag defnyddio gwasanaethau;
- y dylem fod yn glir pam rydym yn casglu data a'r defnydd a wneir ohonynt;
- y dylai pob gwasanaeth gasglu data yn yr un ffordd, gan ddefnyddio'r un categorïau.

Ers hynny:

- rydym wedi cyflwyno canllawiau i wasanaethau ar gasglu data;
- rydym yn cymell gwasanaethau i ddefnyddio taflen Stonewall 'Beth yw'r ots i fi?' - mae'n egluro pam rydym yn casglu data a beth rydym yn ei wneud â nhw;
- rydym wedi cyflwyno ffurflen safonol ar gyfer casglu data.

| **Ffynhonnell: Ymgynghori ac ymgysylltu gan y Cyngor, Rhagfyr 2015** |
|---|
| Roedd pobl yn dymuno i ni barhau i weithio ar yr amcan hwn. Roedd rhai pobl wedi awgrymu y dylem:<br><br>• adolygu'r ffurflen monitro a gwneud mân newidiadau;<br><br>• casglu data am fodlonrwydd ar wasanaethau ar sail nodweddion gwarchodedig;<br><br>• monitro'r defnydd o wasanaethau a bodlonrwydd pobl arnynt, gan gynnwys y rheini sydd â mwy nag un nodwedd warchodedig;<br><br>• cyhoeddi'r holl ddata ar gyfer pob grŵp gwarchodedig;<br><br>• dweud pa newidiadau rydym wedi'u gwneud o ganlyniad i ddefnyddio'r data a chyhoeddi hyn. |
| **Ffynhonnell: Data'r Cyngor 2015** |
| Mae bylchau o hyd yn y wybodaeth am gydraddoldeb sydd gennym. Rydym wedi darparu ffurflen ar gyfer casglu data. Mae hyn yn helpu pob gwasanaeth i weithredu yn yr un ffordd. Mae hefyd yn sicrhau bod gennym wybodaeth am bob un o'r nodweddion gwarchodedig.<br><br>Bob blwyddyn, rydym yn annog rhagor o wasanaethau i ddefnyddio'r dull safonol hwn. Gallwch weld y wybodaeth rydym wedi'i chasglu yn ein hadroddiadau monitro blynyddol ar gydraddoldeb. |
| **Ffynhonnell: Pa Mor Deg yw Cymru? Mawrth 2011** |
| "Oherwydd bylchau yn y dystiolaeth, cymharol ychydig a wyddom am yr anghyfartaledd a wynebodd yr amryfal gredoau crefyddol neu lesbiaid, pobl hoyw, deurywiol a thrawsrywedd, a phrin hefyd yw'r wybodaeth am Sipsiwn, ffoaduriaid a cheiswyr lloches. Ond nid yw absenoldeb unrhyw dystiolaeth na'r niferoedd bychan sy'n perthyn i'r grwpiau dan sylw'n golygu nad oes anghyfartaleddau i'w datrys. Y mae'r ychydig dystiolaeth sydd gennym yn awgrymu bod llawer o'r grwpiau hyn yn wynebu |

| |
|---|
| anghyfartaledd a rhagfarn, er enghraifft, cyfraddau uwch na'r cyffredin o fwlio ac aflonyddu."<br><br>"Byddai defnydd gwell o ffynonellau data presennol, a thechnegau casglu data mwy soffistigedig, yn caniatáu i ni deall yn well yr anghenion a dyheadau amrywiol sydd gan wahanol bobl. Mae hyn yn hanfodol er mwyn deall p'un a sut yr ydym yn gwneud cynnydd fel cymdeithas tuag at well cydraddoldeb." |
| **Ffynhonnell: A yw Cymru'n Decach? Rhagfyr 2015** |
| Wrth gynnal yr adolygiad hwn, mae'n glir bod arnom angen tystiolaeth fwy cynhwysfawr o ansawdd gwell i asesu cynnydd.<br><br>Mewn rhai achosion, nid yw data ar gael o gwbl, ac amhosibl yn aml yw cynnal asesiad mwy soffistigedig o feysydd anfantais allweddol, er enghraifft, lle mae gan bobl fwy nag un nodwedd warchodedig.<br><br>Yn aml, nid yw'r data yn dangos rhai grwpiau bach o bobl fel y rheini dros 80 oed, pobl drawsryweddol, Sipsiwn a Theithwyr, plant a phobl ifanc sy'n profi effaith cam-drin a chamfanteisio.<br><br>Dylai Llywodraeth Cymru ac awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru gymryd camau i wella'r dystiolaeth a gaiff ei chasglu.<br><br>Mae'r ymchwil yn tynnu sylw at y blaenoriaethau canlynol:<br><br>• Cau bylchau cyrhaeddiad mewn addysg.<br><br>• Hybu dulliau teg o recriwtio, datblygu a gwobrwyo mewn cyflogaeth.<br><br>• Gwella amodau byw mewn cymunedau cydlynus.<br><br>• Cynyddu mynediad at gyfiawnder a hybu cyfranogi democrataidd. |

- Gwella mynediad at wasanaethau iechyd meddwl a chynorthwyo pobl sydd ag iechyd meddwl gwael.

- Atal cam-drin ac esgeuluso mewn gofal ac mewn dalfeydd.

- Dileu trais, cam-drin ac aflonyddu yn y gymuned.

| **Pa nodweddion gwarchodedig y mae'n eu cynnwys?** | | | |
|---|---|---|---|
| Oed | √ | Hil | √ |
| Anabledd | √ | Crefydd neu Gred | √ |
| Ailbennu rhywedd | √ | Rhyw | √ |
| Priodas a Phartneriaeth Sifil | √ | Cyfeiriadedd Rhywiol | √ |
| Beichiogrwydd a Mamolaeth | √ | | |

## 2. Cau bylchau cyrhaeddiad y plant mewn grwpiau gwarchodedig

| **Sut y byddwn yn gwneud hyn?** | | |
|---|---|---|
| **Cam Gweithredu** | **Gan Bwy** | **Amserlen** |
| 1. Dadansoddi bylchau cyrhaeddiad ar sail nodweddion gwarchodedig gan roi sylw penodol i'r canlynol:<br>• plant Sipsiwn / Roma;<br>• plant sy'n derbyn gofal;<br>• plant sydd ag Anghenion Addysgol Arbennig;<br>• plant sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim.<br>Rhoi cynlluniau ar waith i leihau'r bylchau. | Pennaeth Gwella Ysgolion a Chynhwysiant | 2016 – 2020<br><br>Adrodd ar gynnydd bob blwyddyn |
| 2. Adolygu gwaharddiadau o ysgolion ar sail nodweddion gwarchodedig a rhoi cynlluniau ar waith i'w lleihau. Rhoi sylw penodol i'r canlynol:<br>• bechgyn;<br>• disgyblion sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim;<br>• grwpiau ethnig;<br>• disgyblion sydd ag Anghenion Addysgol Arbennig. | Pennaeth Gwella Ysgolion a Chynhwysiant | 2016 - 2020<br><br>Adrodd ar gynnydd bob blwyddyn |

| Pam y byddwn yn gwneud hyn? |
|---|
| **Ffynhonnell: Cynllun Corfforaethol Drafft y Cyngor 2016 – 2020** |
| Amcan Corfforaethol 5: Codi safonau cyflawniad yn gyffredinol.<br><br>Camau Gweithredu:<br><br>• Sicrhau gwell canlyniadau i grwpiau o ddysgwyr sydd mewn perygl o dangyrraedd, fel y rheini sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.<br><br>• Cynyddu'r cyfleoedd dysgu i unigolion difreintiedig a theuluoedd agored i niwed.<br><br>• Sicrhau canlyniadau uchelgeisiol i ddysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol drwy ymyrryd yn gynnar a chydweithio effeithiol yn unol â'r Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol arfaethedig. |
| **Ffynhonnell: Pa Mor Deg yw Cymru? Mawrth 2011** |
| Mae gwahaniaethau arwyddocaol o ran cyfranogi a chyflawniad mewn addysg ar sail incwm ar hyd oes yr unigolyn ac, i lai o raddau, ar sail rhywedd, ethnigrwydd ac anabledd. |
| **Ffynhonnell: A yw Cymru'n Decach? Rhagfyr 2015** |
| Mae cyfran y disgyblion sy'n ennill pum TGAU neu fwy ar raddau A* - C gan gynnwys Mathemateg a Chymraeg neu Saesneg wedi cynyddu. Ni chafwyd fawr o ostyngiad mewn anghydraddoldebau rhwng gwahanol grwpiau ac, yn achos rhai grwpiau, mae'r bwlch wedi ehangu.<br><br>Mae cyrhaeddiad rhai grwpiau o blant o ran ennill pum TGAU neu fwy ar raddau A* - C, gan gynnwys Mathemateg a Chymraeg neu Saesneg, yn parhau'n drawiadol o isel: |

- plant Sipsiwn / Roma;
- plant sy'n derbyn gofal;
- plant sydd ag Anghenion Addysgol Arbennig;
- plant sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim.

Mae cydberthynas agos rhwng gwahardd plant o'r ysgol a chyrhaeddiad isel. Yn gyffredinol, mae cyfran y disgyblion sydd wedi'u gwahardd o'r ysgol yng Nghymru wedi gostwng.

Cafwyd rhywfaint o ostyngiad yn nifer y bechgyn sydd wedi'u gwahardd o'i gymharu â nifer y merched a rhwng disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a rhai nad ydynt yn gymwys, er bod y bylchau rhwng y grwpiau'n fawr o hyd.

Cafwyd gostyngiadau yn y gyfradd gwahardd ar gyfer yr holl grwpiau ethnig.

Mae'r gyfradd gwahardd ar gyfer disgyblion sydd heb AAA wedi gostwng a'r gyfradd gwahardd ar gyfer disgyblion sydd ag AAA heb newid i raddau arwyddocaol, felly mae'r bwlch wedi ehangu.

| **Pa nodweddion gwarchodedig y mae'n eu cynnwys?** | | | |
|---|---|---|---|
| Oed | √ | Hil | √ |
| Anabledd | √ | Crefydd neu Gred | √ |
| Ailbennu rhywedd | √ | Rhyw | √ |
| Priodas a Phartneriaeth Sifil | √ | Cyfeiriadedd Rhywiol | √ |
| Beichiogrwydd a Mamolaeth | √ | | |

## 3. Gwneud dogfennau cyhoeddus yn haws eu darllen a'u deall

| **Sut y byddwn yn gwneud hyn?** | | |
|---|---|---|
| **Cam Gweithredu** | **Gan Bwy** | **Amserlen** |
| 1. Codi ymwybyddiaeth o ganllawiau ar iaith glir. | Swyddog Cydraddoldeb Corfforaethol | 2016 – 2017<br><br>Adrodd ar gynnydd bob blwyddyn |
| 2. Darparu hyfforddiant ar iaith glir. | Rheolwr Hyfforddi a Datblygu | 2016 – 2020<br><br>Adrodd ar gynnydd bob blwyddyn |
| 3. Peri i bobl fod yn ymwybodol bod dogfennau ar gael iddynt mewn fformatau eraill:<br><br>• cynnwys datganiad mewn dogfennau i ddweud bod dogfennau ar gael mewn fformatau ac ieithoedd eraill;<br><br>• cynhyrchu dogfennau a ffurflenni allweddol ar ffurf glywedol, mewn print bras, ac mewn fersiwn hawdd ei deall;<br><br>• sicrhau bod dogfennau a ffurflenni ar gael yn rhwydd mewn fformatau ac ieithoedd eraill ar gais. | Penaethiaid Gwasanaeth | 2016 – 2020<br><br>Adrodd ar gynnydd bob blwyddyn |
| 4. Cael gwybod a yw pobl yn credu bod y wybodaeth y maent yn ei chael yn haws ei | Rheolwr Cyfathrebu | 2018 – 2020<br><br>Adrodd ar |

| | | |
|---|---|---|
| darllen a’i deall. | | gynnydd bob blwyddyn |

| |
|---|
| **Pam y byddwn yn gwneud hyn?** |
| **Ffynhonnell: Digwyddiadau ymgysylltu’r Cyngor, Tachwedd 2011** |
| Y pryd hwnnw, dywedodd pobl wrthym:<br><br>• eu bod am gael gwybodaeth y gallant ei deall, yn enwedig pobl iau a hŷn, pobl anabl, pobl Dduon, pobl Asiaidd a phobl mewn lleiafrifoedd ethnig.<br><br>• bod iaith glir yn hanfodol i wella’r gallu i gael gafael ar wasanaethau.<br><br>• bod angen i wybodaeth ar ein gwefan fod mewn fformat priodol.<br><br>• bod nifer mawr o grwpiau gwirfoddol a gwasanaethau cymorth ym Mro Morgannwg a Chaerdydd ac y gallem wneud rhagor i’w hyrwyddo a chyfeirio pobl atynt.<br><br>Ers hynny:<br><br>• rydym wedi adolygu a diweddaru ein canllawiau ar iaith glir ac wedi’u gosod ar ein gwefan staff;<br><br>• rydym yn diweddaru ein hyfforddiant ar iaith glir;<br><br>• rydym wedi adolygu ein gwefan a’i symleiddio, ac mae pobl yn gallu defnyddio testun yn unig, newid maint y testun neu ddefnyddio Browse Aloud;<br><br>• rydym wedi cydweithio’n agosach â Cyngor ar Bopeth sy’n darparu cyngor ar gydraddoldeb i’r cyhoedd ar ein rhan;<br><br>• rydym wedi parhau i weithio gyda Race Equality First sy’n cynorthwyo rhai grwpiau |

| |
|---|
| cymunedol ar ein rhan;<br><br>• rydym wedi parhau i weithio gyda Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth sy'n ymweld ag ysgolion i godi ymwybyddiaeth o faterion cydraddoldeb ymysg plant a phobl ifanc;<br><br>• rydym wedi parhau i weithio gyda nifer o grwpiau gwirfoddol a gwasanaethau cymorth eraill;<br><br>• rydym wedi parhau i gynnwys dolenni ar gyfer sefydliadau eraill ar ein gwefan. |
| **Ffynhonnell: Ymgynghori ac ymgysylltu gan y Cyngor, Rhagfyr 2015** |
| Mae pobl yn parhau i deimlo bod y wybodaeth rydym yn ei hanfon atynt yn rhy gymhleth ac nad ydynt yn ei deall.<br><br>Yn ogystal â gwybodaeth mewn iaith glir, mae pobl yn dymuno i ni gynhyrchu gwybodaeth:<br><br>• mewn dogfennau neu grynodebau hawdd eu deall;<br><br>• mewn ieithoedd cymunedol ar gais; ac<br><br>• yn dymuno i ni gynhyrchu ffurflenni symlach. |

| **Pa nodweddion gwarchodedig y mae'n eu cynnwys?** | | | |
|---|---|---|---|
| Oed | √ | Hil | √ |
| Anabledd | √ | Crefydd neu Gred | √ |
| Ailbennu rhywedd | √ | Rhyw | √ |
| Priodas a Phartneriaeth Sifil | √ | Cyfeiriadedd Rhywiol | √ |
| Beichiogrwydd a Mamolaeth | √ | | |

## 4. Helpu staff i wybod mwy am gyfraith cydraddoldeb, a helpu staff a'r cyhoedd i ddeall anghenion y grwpiau gwarchodedig

| Sut y byddwn yn gwneud hyn? | | |
|---|---|---|
| **Cam Gweithredu** | **Gan Bwy** | **Amserlen** |
| 1. Parhau â'r rhaglen hyfforddi staff i godi ymwybyddiaeth o gyfraith cydraddoldeb a chydraddoldeb i grwpiau gwarchodedig. | Swyddog Cydraddoldeb Corfforaethol | 2016 – 2020<br><br>Adrodd ar gynnydd bob blwyddyn |
| 2. Ehangu'r rhaglen hyfforddi i gynnwys hyfforddiant ar anghenion grwpiau gwarchodedig penodol. | Swyddog Cydraddoldeb Corfforaethol | 2016 – 2020<br><br>Adrodd ar gynnydd bob blwyddyn |
| 3. Darparu hyfforddiant ar asesu'r effaith ar gydraddoldeb. | Swyddog Cydraddoldeb Corfforaethol | 2019 – 2020<br><br>Adrodd ar gynnydd bob blwyddyn |
| 4. Parhau i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd drwy'r canlynol:<br><br>• hysbysfwrdd y dderbynfa, hysbysfyrddau electronig, cyfryngau cymdeithasol;<br><br>• cydweithio â sefydliadau eraill. | Swyddog Cydraddoldeb Corfforaethol | 2016 – 2020<br><br>Adrodd ar gynnydd bob blwyddyn |

| **Pam y byddwn yn gwneud hyn?** |
| --- |
| **Ffynhonnell: Digwyddiadau ymgysylltu'r Cyngor, Tachwedd 2011** |
| Y pryd hwnnw, roedd pobl yn teimlo y dylem:<br><br>• hyfforddi staff i ddeall anghenion pobl yn well, i feithrin cydymwybyddiaeth a pharch;<br><br>• codi ymwybyddiaeth yn raddol;<br><br>• targedu rhai mathau o hyfforddiant cydraddoldeb ar grwpiau penodol;<br><br>• meithrin dealltwriaeth fwy cyson o ffyrdd o gwrdd ag anghenion pobl anabl.<br><br>Ers hynny, rydym wedi:<br><br>• dadansoddi anghenion am hyfforddiant cydraddoldeb; wedi lansio rhaglen hyfforddi newydd i godi ymwybyddiaeth o gydraddoldeb, yn ogystal â modiwlau e-ddysgu ar gyfer ymwybyddiaeth o gydraddoldeb ac asesu'r effaith ar gydraddoldeb;<br><br>• darparu canllawiau ysgrifenedig i staff nad ydynt yn gallu dilyn mathau eraill o hyfforddiant;<br><br>• darparu mathau eraill o hyfforddiant ar gydraddoldeb fel hyfforddiant yn Iaith Arwyddion Prydain, a hyfforddiant ar bobl lesbiaidd, hoyw, ddeurywiol a thrawsryweddol;<br><br>• darparu rhaglen o hyfforddiant ar asesu'r effaith ar gydraddoldeb ar gyfer swyddogion sy'n ymwneud â pholisi a gwneud penderfyniadau;<br><br>• cynnal ymgyrch i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd drwy bosteri a chyfryngau cymdeithasol. |

| **Ffynhonnell: Ymgynghori ac ymgysylltu gan y Cyngor, Rhagfyr 2015** |
| --- |
| Roedd pobl yn dymuno i ni barhau â'r amcan hwn ac yn awgrymu:<br><br>• defnyddio modelau rôl;<br><br>• mynd â'r neges i ysgolion a chymunedau;<br><br>• sicrhau bod pob gwasanaeth yn cymryd cyfrifoldeb am gydraddoldeb, nid yr adran gydraddoldebau yn unig;<br><br>• darparu hyfforddiant ar anghenion pob un o'r grwpiau gwarchodedig;<br><br>• darparu dolenni i sefydliadau eraill i gael cymorth ychwanegol;<br><br>• cydweithio ag eraill i godi ymwybyddiaeth o faterion yn y gymuned leol;<br><br>• asesu a yw hyfforddiant a gwaith codi ymwybyddiaeth wedi gwneud gwahaniaeth – a ydym yn ymgysylltu'n fwy â'r cyhoedd, a yw'n haws defnyddio ein gwasanaethau? |
| **Ffynhonnell: Not Just Another Statistic, Tachwedd 2010** |
| Mae grwpiau gwarchodedig am weld newid yn y ffordd y mae pobl yn meddwl amdanynt ac yn ymddwyn tuag atynt.  Mae angen cael cymorth gan nifer mawr o sefydliadau i beri i hyn ddigwydd.  Er mwyn gwneud hyn, bydd angen i ni godi ymwybyddiaeth o anghenion grwpiau gwarchodedig.<br><br>Roedd y rhan fwyaf o bobl wedi nodi pa mor bwysig yw agweddau staff.  Os yw agwedd y staff mewn sefydliad yn wael, bydd pobl yn feirniadol ohono.  Cam mawr ymlaen fyddai cael systemau symlach a chydnabyddiaeth nad yw un dull o weithredu'n addas i bawb. |

| **Pa nodweddion gwarchodedig y mae'n eu cynnwys?** | | | |
|---|---|---|---|
| Oed | √ | Hil | √ |
| Anabledd | √ | Crefydd neu Gred | √ |
| Ailbennu rhywedd | √ | Rhyw | √ |
| Priodas a Phartneriaeth Sifil | √ | Cyfeiriadedd Rhywiol | √ |
| Beichiogrwydd a Mamolaeth | √ | | |

## 5. Gofyn i grwpiau gwarchodedig am eu barn am newidiadau arfaethedig mewn polisi, cyllidebau a gwasanaethau

| **Sut y byddwn yn gwneud hyn?** | | |
|---|---|---|
| **Cam Gweithredu** | **Gan Bwy** | **Amserlen** |
| 1. Ymgysylltu â grwpiau gwarchodedig i gael gwybod am eu barn a'u hanghenion fel y bydd y rhain yn siapio polisïau, penderfyniadau a gwasanaethau. | Penaethiaid Gwasanaeth<br><br>Rheolwr Cyfathrebu | 2016 – 2020<br><br>Adrodd ar gynnydd bob blwyddyn |
| 2. Datblygu adnoddau i helpu swyddogion i wybod ble fydd ymchwil berthnasol ar gael am anghenion grwpiau gwarchodedig. | Swyddog Cydraddoldeb Corfforaethol | 2016 – 2017<br><br>Adrodd ar gynnydd bob blwyddyn |
| 3. Adolygu dulliau o ymgysylltu i sicrhau ein bod yn cyrraedd grwpiau nas clywir yn aml. | Rheolwr Cyfathrebu<br><br>Swyddog Cydraddoldeb Corfforaethol | 2016 – 2017<br><br>Adrodd ar gynnydd bob blwyddyn |

| **Pam y byddwn yn gwneud hyn?** |
|---|
| **Ffynhonnell: Digwyddiadau ymgysylltu'r Cyngor, Tachwedd 2011** |
| Y pryd hwnnw, roedd pobl yn teimlo:<br><br>• bod yr ymgynghori'n adweithiol mewn rhai achosion ac roeddent am weld deialog |

parhaus â defnyddwyr gwasanaethau;

- bod ar rai pobl angen gwasanaethau eiriolaeth i'w helpu i gymryd rhan mewn penderfyniadau;
- ein bod yn aml yn gwrthod ystyried barn pobl iau a hŷn ac yn rhoi llai o flaenoriaeth i bobl hŷn;
- bod mynediad i adeiladau'n wael at ei gilydd (heblaw adeiladau'r Cyngor).

Ers hynny:

- rydym wedi parhau i ymgynghori â'n Panel Dinasyddion a rhestr o sefydliadau trydydd sector;
- rydym yn ymgysylltu'n gyson â fforwm Vale 50+ a'r Cabinet Ieuenctid er mwyn ystyried eu barn;
- rydym wedi parhau i gynnal ein digwyddiadau ymgysylltu mewn adeiladau sydd â rampiau a dolenni sain.

**Ffynhonnell: Ymgynghori ac ymgysylltu gan y Cyngor, Rhagfyr 2015**

Roedd pobl yn dymuno i ni barhau â'r amcan hwn. Cawsom nifer o awgrymiadau ganddynt:

- sefydlu cronfa o bobl mewn grwpiau gwarchodedig i ofyn eu barn;
- gwella rhaglenni addysg er mwyn mynd i'r afael â thangyflawni ymysg cymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig;
- sicrhau bod gweithgareddau ymgysylltu'n adlewyrchu amrywiaeth y dinasyddion ym Mro Morgannwg;

| |
|---|
| • defnyddio dulliau o bob math ar gyfer cynnwys ac ymgysylltu er mwyn cyrraedd yr holl gymunedau a 'grwpiau nas clywir yn aml';<br>• cydweithio â grwpiau mewn cymunedau ac yn y trydydd sector i wella'r cyfraddau ymateb i weithgareddau ymgysylltu;<br>• cynnwys cymunedau amrywiol wrth wneud penderfyniadau ar y gyllideb, adolygu polisi, paratoi cynlluniau cyflawni, a gwneud penderfyniadau i barhau â gwasanaethau a darparu gwasanaethau presennol er mwyn sicrhau bod penderfyniadau'n cwrdd ag anghenion yr holl ddinasyddion;<br>• rhedeg llinell gymorth i bobl ifanc i ddarparu gwybodaeth am wasanaethau lleol a chyfleoedd i bobl ifanc, gan gynnwys y rheini nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant. |
| **Ffynhonnell: Not Just Another Statistic, Tachwedd 2010** |
| Roedd nifer o bobl wedi sôn am rôl hanfodol y gwasanaethau cynghori ac eiriolaeth o ran eu helpu i ymdopi â thasgau pob dydd a deall hawliau. |
| **Ffynhonnell: Pa Mor Deg yw Cymru? Mawrth 2011** |
| "...mae'r dystiolaeth... yn awgrymu nad yw'r rheiny sy'n perthyn i grwpiau a ddiogelir byth wedi cael cyfle i gyfranogi'n llawn yn y broses o wneud penderfyniadau a mwynhau'r un pwer a'r un dylanwad â hwnnw y mae rhai grwpiau'n ei fwynhau ers degawdau." |
| **Ffynhonnell: A yw Cymru'n Decach? Rhagfyr 2015** |
| Yng Nghymru, mae llai nag un ym mhob pedwar yn teimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol. Mae rhai grwpiau'n teimlo bod ganddynt lai o allu na grwpiau eraill i wneud hyn:<br>• pobl hŷn;<br>• pobl anabl;<br>• menywod. |

| **Pa nodweddion gwarchodedig y mae'n eu cynnwys?** | | | |
|---|---|---|---|
| Oed | √ | Hil | √ |
| Anabledd | √ | Crefydd neu Gred | √ |
| Ailbennu rhywedd | √ | Rhyw | √ |
| Priodas a Phartneriaeth Sifil | √ | Cyfeiriadedd Rhywiol | √ |
| Beichiogrwydd a Mamolaeth | √ | | |

## 6. Cymell pobl sydd â nodweddion gwarchodedig i roi gwybod am droseddau casineb, aflonyddu a gwahaniaethu

| Sut y byddwn yn gwneud hyn? | | |
|---|---|---|
| **Cam Gweithredu** | **Gan Bwy** | **Amserlen** |
| 1. Cymell pobl i roi gwybod am droseddau casineb, aflonyddu a gwahaniaethu drwy hyrwyddo ffyrdd o wneud hyn a'r cymorth sydd ar gael i ddioddefwyr. | Prif Swyddog Diogelwch Cymunedol | 2016 – 2020<br>Adrodd ar gynnydd bob blwyddyn |
| 2. Cofnodi a dadansoddi adroddiadau ar sail nodweddion gwarchodedig a rhoi cynlluniau ar waith i ostwng troseddau casineb, aflonyddu a gwahaniaethu. | Prif Swyddog Diogelwch Cymunedol | 2016 – 2020<br>Adrodd ar gynnydd bob blwyddyn |
| 3. Asesu sut mae sefydliadau eraill fel yr heddlu a sefydliadau trydydd sector yn gallu helpu i gymell pobl i roi gwybod am droseddau casineb a chydweithio i wneud gwelliannau. | Prif Swyddog Diogelwch Cymunedol | 2016 – 2020<br>Adrodd ar gynnydd bob blwyddyn |
| 4. Lledaenu gwybodaeth am y system gwynion gorfforaethol ymysg y cyhoedd.  Egluro sut rydym yn delio â chwynion am wahaniaethu a pham rydym yn monitro nodweddion gwarchodedig. | Swyddog Cwynion Cwsmeriaid | 2016 – 2020<br>Adrodd ar gynnydd bob blwyddyn |
| 5. Cofnodi a dadansoddi adroddiadau am wahaniaethu ar sail nodweddion gwarchodedig. | Swyddog Cwynion Cwsmeriaid | 2016 – 2020<br>Adrodd ar gynnydd bob blwyddyn |
| 6. Monitro a yw pobl sydd â nodweddion gwarchodedig yn defnyddio'r system gwynion | Swyddog Cwynion | 2016 – 2020 |

| | | |
|---|---|---|
| gorfforaethol a chymryd camau priodol. | Cwsmeriaid | Adrodd ar gynnydd bob blwyddyn |
| 7. Monitro digwyddiadau bwlio mewn ysgolion ar sail nodweddion gwarchodedig a chymryd camau i'w lleihau.<br><br>Rhoi sylw penodol i'r rheini sy'n fwyaf tebygol o gael eu bwlio:<br><br>• disgyblion sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol;<br>• disgyblion anabl;<br>• disgyblion lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsryweddol;<br>• disgyblion o leiafrifoedd ethnig;<br>• disgyblion o gefndir crefyddol. | Pennaeth Gwella Ysgolion a Chynhwysiant | 2016 – 2020<br><br>Adrodd ar gynnydd bob blwyddyn |

| **Pam y byddwn yn gwneud hyn?** |
|---|
| **Ffynhonnell: Digwyddiadau ymgysylltu'r Cyngor, Tachwedd 2011** |
| Y pryd hwnnw, roedd pobl yn teimlo:<br><br>• bod angen i'r amcan gynnwys yr holl grwpiau gwarchodedig;<br><br>• ei bod yn bwysig codi ymwybyddiaeth o wasanaethau i gymell mwy o bobl i roi gwybod am aflonyddu; |

| |
|---|
| • y byddai angen i ni egluro ystyr aflonyddu;<br><br>• bod angen i bobl deimlo eu bod yn gallu rhoi gwybod am wahaniaethu heb ofni cael lefelau gwasanaeth is o ganlyniad;<br><br>• bod angen i bobl deimlo bod eu sylwadau, cwynion a barnau'n cael eu cymryd o ddifrif.<br><br>Ers hynny, rydym wedi:<br><br>• cydweithio â Race Equality First i gynhyrchu poster i annog pobl i roi gwybod am droseddau casineb;<br><br>• egluro beth yw aflonyddu ar y poster hwnnw;<br><br>• hyrwyddo llinell gymorth troseddau casineb Cymorth i Ddioddefwyr;<br><br>• dechrau monitro cwynion ar sail nodweddion gwarchodedig. |
| **Ffynhonnell: Ymgynghori ac ymgysylltu gan y Cyngor, Rhagfyr 2015** |
| Roedd pobl yn teimlo y dylem barhau i gymell pobl i roi gwybod am aflonyddu a gwahaniaethu. Cafwyd awgrymiadau ar gyfer gwella:<br><br>• Darparu addysg yn y gymuned i gymell pobl i roi gwybod am aflonyddu a gwahaniaethu.<br><br>• Cydweithio â phartneriaid eraill ym maes diogelwch cymunedol i fynd i'r afael â rhagfarn a gwahaniaethu a lleihau troseddau casineb ac aflonyddu.<br><br>• Cydweithio â'r Heddlu i fynd i'r afael ag aflonyddu a gwahaniaethu yn erbyn pobl drawsryweddol gan fod y gymuned hon yn wynebu'r broblem hon bob dydd. |

**Ffynhonnell: Pa Mor Deg yw Cymru? Mawrth 2011**

"Dynion ifanc a grwpiau lleiafrifoedd ethnig sy'n wynebu'r risg fwyaf o ddioddef troseddau treisgar yn gyffredinol, a menywod sy'n wynebu'r risg fwyaf o ddigon o ran trais rhywiol (yn cynnwys treisio) a thrais domestig. Menywod, pobl fethedig, pobl hyn, grwpiau lleiafrifoedd ethnig a phobl o'r grwpiau sosio-economaidd is sydd fwyaf tebygol o fod ofn trosedd dreisgar."

Oherwydd lefelau hyder isel, mae nifer yr achosion o droseddau casineb yn fwy o lawer na'r nifer y rhoddir gwybod amdanynt ac yn aml ni cheir cyfiawnder. Mae atal troseddau casineb yn gam hanfodol wrth feithrin cysylltiadau da rhwng grwpiau mewn cymdeithas. Lle ceir troseddau casineb, mae cynyddu'r cyfraddau hysbysu'n dasg sydd angen ei chyflawni ar fyrder.

Mae pobl mewn grwpiau lleiafrifol ethnig, pobl anabl, pobl lesbiaidd, hoyw, ddeurywiol a thrawsryweddol i gyd mewn perygl o brofi droseddau casineb a bwlio.

Mae nifer mawr o bobl wedi dweud eu bod yn profi gwahaniaethu, aflonyddu a chamdriniaeth. Mae tua 10 y cant o'r boblogaeth gyfan wedi profi achosion o wahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth yn y pum mlynedd diwethaf.

Mae rhai grwpiau, fel pobl ifanc, pobl anabl, pobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol, ffoaduriaid a cheiswyr lloches, pobl drawsryweddol, pobl ag anhwylderau iechyd meddwl a phobl hŷn yn rhoi gwybod am lefelau uwch o lawer o wahaniaethu ac aflonyddu – dywedodd hyd at un rhan o dair o'r holl bobl anabl 16-39 oed eu bod wedi dioddef gwahaniaethu neu aflonyddu.

Mae nifer y digwyddiadau lle targedir pobl oherwydd pwy ydynt (er enghraifft. troseddau casineb) yn fwy na'r nifer y rhoddir gwybod amdanynt, felly mae nifer mawr o ddioddefwyr nad ydynt yn gallu cael y cymorth sydd ei angen arnynt, neu sicrhau cyfiawnder.

**Ffynhonnell: Not Just Another Statistic, Tachwedd 2010**

| |
|---|
| Roedd nifer o bobl wedi sôn am rôl hanfodol y gwasanaethau cynghori ac eiriolaeth o ran eu helpu i ymdopi â thasgau pob dydd a deall hawliau. |
| **Ffynhonnell: A yw Cymru'n Decach? Rhagfyr 2015** |
| Ni chafwyd gostyngiad cyffredinol yn y trais, camdriniaeth ac aflonyddu a brofir gan rai pobl ond cafwyd cynnydd yn nifer y digwyddiadau y rhoddwyd gwybod amdanynt i'r heddlu ac yn y cyfraddau collfarnu.<br><br>Yng Nghymru, roedd 7% o oedolion sy'n 16 oed neu'n hŷn wedi dweud eu bod wedi profi gwahaniaethu, aflonyddu neu gamdriniaeth yn y 12 mis blaenorol. Roedd cyfran y digwyddiadau ymysg rhai grwpiau'n uwch o lawer:<br><br>• un ym mhob pump o'r bobl mewn lleiafrif ethnig;<br>• un ym mhob pump o'r bobl mewn lleiafrif crefyddol;<br>• un ym mhob deg o bobl ifanc;<br>• un ym mhob deg o bobl anabl;<br>• un ym mhob deg o bobl nad ydynt erioed wedi gweithio neu sy'n ddi-waith ers cyfnod hir.<br><br>Amcangyfrifwyd bod 20% i 50% o ddisgyblion yng Nghymru wedi cael eu bwlio ar ryw adeg yn ystod eu bywyd yn yr ysgol (Estyn 2014). Mae bwlio'n risg neilltuol i'r canlynol:<br><br>• disgyblion sydd ag Anghenion Addysgol Arbennig;<br>• disgyblion anabl;<br>• disgyblion lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsryweddol;<br>• disgyblion o leiafrifoedd ethnig;<br>• disgyblion o gefndir crefyddol. |

Cafwyd bod cyfraddau'r achosion o fwlio yn uwch mewn ysgolion uwchradd ac mae seiberfwlio'n achosi pryder o hyd.

Tynnwyd sylw mewn adroddiad gan Estyn at yr amrywiaeth fawr ym mhrofiadau disgyblion o fwlio ac yn y camau y mae ysgolion yn eu cymryd i ddelio ag ef. Nodwyd nad oedd y cynlluniau cydraddoldeb strategol mewn nifer mawr o ysgolion yn rhoi sylw i'r holl nodweddion gwarchodedig. Yn aml cafwyd mai gwan oedd ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ysgolion o fwlio a'u polisïau a gweithdrefnau (Estyn, 2014).

| **Pa nodweddion gwarchodedig y mae'n eu cynnwys?** | | | |
|---|---|---|---|
| Oed | √ | Hil | √ |
| Anabledd | √ | Crefydd neu Gred | √ |
| Ailbennu rhywedd | √ | Rhyw | √ |
| Priodas a Phartneriaeth Sifil | √ | Cyfeiriadedd Rhywiol | √ |
| Beichiogrwydd a Mamolaeth | √ | | |

## 7. Dod o hyd i ffyrdd newydd o gyrraedd rhai sy'n dioddef cam-drin domestig a hybu ymwybyddiaeth o wasanaethau cam-drin domestig yn y gymuned.

| Sut y byddwn yn gwneud hyn? | | |
|---|---|---|
| **Cam Gweithredu** | **Gan Bwy** | **Amserlen** |
| 1. Asesu a yw pobl mewn amrywiaeth o grwpiau gwarchodedig yn gwybod am wasanaethau cam-drin domestig ac yn gallu cael gafael arnynt. | Cydgysylltydd Trais Domestig a Cham-drin Rhywiol | 2016 – 2020<br>Adrodd ar gynnydd bob blwyddyn |
| 2. Ymgyrchu i hybu ymwybyddiaeth o'r cymorth sydd ar gael i ddioddefwyr cam-drin domestig. | Cydgysylltydd Trais Domestig a Cham-drin Rhywiol | 2016 – 2020<br>Adrodd ar gynnydd bob blwyddyn |
| 3. Monitro ac adrodd yn rheolaidd ar y defnydd o wasanaethau cymorth ar sail nodweddion gwarchodedig a defnyddio'r wybodaeth i gynyddu defnydd o'r gwasanaethau. | Cydgysylltydd Trais Domestig a Cham-drin Rhywiol | 2016 – 2020<br>Adrodd ar gynnydd bob blwyddyn |
| 4. Darparu a datblygu gwasanaethau ar draws Gorllewin Bro Morgannwg mewn partneriaeth â Vale 50+. | Cydgysylltydd Trais Domestig a Cham-drin Rhywiol | 2016 – 2020<br>Adrodd ar gynnydd bob blwyddyn |

| **Pam y byddwn yn gwneud hyn?** |
| --- |
| **Ffynhonnell: Strategaeth Gymunedol 2011 - 21** |
| Mae nifer y troseddau rhywiol difrifol ym Mro Morgannwg wedi cynyddu o'i gymharu â 2009 -10. Ym mwyafrif yr achosion, mae'r dioddefwr yn adnabod yr un sydd o dan amheuaeth ac fel arfer mae'n aelod o'r teulu, yn ffrind neu'n gydnabod. |
| **Ffynhonnell: Cynllun Corfforaethol y Cyngor 2010 – 14 (diwygiwyd Rhagfyr 2011)** |
| Hybu'r ymwybyddiaeth o wasanaethau cymorth ar gyfer cam-drin domestig. |
| **Ffynhonnell: Ymgynghori ac ymgysylltu gan y Cyngor, Rhagfyr 2015** |
| Roedd pobl yn dymuno i ni barhau i weithio ar hyn ac wedi cynnig awgrymiadau:<br>• mae angen rhoi proffil uwch iddo;<br>• gwneud y rolau'n glir;<br>• nid oes digon o sylw i gam-drin emosiynol;<br>• nid menywod sy'n cael eu cam-drin bob tro ac nid yw'n digwydd bob amser mewn perthnasoedd heterorywiol;<br>• mae angen monitro mwy cadarn i weld pa mor ddefnyddiol yw gwasanaeth cymorth cam-drin domestig y Cyngor, faint o ddefnydd a geir ohono a pha mor hyderus yw ei staff wrth ei ddarparu. |
| **Ffynhonnell: Gwybodaeth y Cyngor 2016** |
| Er 2013, mae Atal y Fro wedi gweld cynnydd o flwyddyn i flwyddyn yn nifer y bobl hŷn (50+) sy'n defnyddio gwasanaethau cam-drin domestig. |

| **Ffynhonnell: Pa Mor Deg yw Cymru? Mawrth 2011** |
|---|
| Mae un ym mhob pedair o fenywod yng Nghymru a Lloegr wedi profi rhyw fath o gam-drin domestig ers cyrraedd 16 oed.<br><br>Mae tri chwarter y troseddau cam-drin domestig yn ail droseddau.<br><br>Mae menywod yng Nghymru'n ddwywaith yn fwy tebygol na dynion o ddioddef trais rhywiol, neu drais nad yw'n rhywiol o du eu partner neu eu teulu. |
| **Ffynhonnell: A yw Cymru'n Decach? Rhagfyr 2015** |
| Nid oedd newid arwyddocaol yn nifer y dioddefwyr cam-drin domestig a oedd wedi rhoi gwybod am ddigwyddiadau.<br><br>Roedd nifer y digwyddiadau domestig a gofnodwyd gan yr heddlu wedi cynyddu 20%. |

| **Pa nodweddion gwarchodedig y mae'n eu cynnwys?** | | | |
|---|---|---|---|
| Oed | √ | Hil | √ |
| Anabledd | √ | Crefydd neu Gred | √ |
| Ailbennu rhywedd | √ | Rhyw | √ |
| Priodas a Phartneriaeth Sifil | √ | Cyfeiriadedd Rhywiol | √ |
| Beichiogrwydd a Mamolaeth | √ | | |

## 8. Lleihau'r bwlch cyflog rhwng y rhyweddau a gwella'r cyfleoedd am waith i grwpiau gwarchodedig

| Sut y byddwn yn gwneud hyn? | | |
|---|---|---|
| **Cam Gweithredu** | **Gan Bwy** | **Amserlen** |
| 1. Parhau i wella'r ffyrdd o gasglu data ar sail nodweddion gwarchodedig i helpu i wella polisïau cyflogaeth a hyfforddiant. | Pennaeth Adnoddau Dynol | 2016 – 2017<br><br>Adrodd ar gynnydd bob blwyddyn |
| 2. Defnyddio'r data uchod i wella cyfraddau cyflogaeth y rheini sydd â nodweddion gwarchodedig ac y nodwyd eu bod wedi'u tangynrychioli. | Pennaeth Adnoddau Dynol | 2017 – 2020<br><br>Adrodd ar gynnydd bob blwyddyn |
| 3. Cyflawni gwaith penodol i leihau'r bwlch cyflog, yn enwedig ar gyfer menywod a phobl mewn lleiafrifoedd ethnig. | Pennaeth Adnoddau Dynol | 2016 – 2018<br><br>Adrodd ar gynnydd bob blwyddyn |
| 4. Parhau i ddatblygu strategaethau i roi sylw i'r gostyngiad yng nghynrychiolaeth pobl ifanc yn y gweithle. | Pennaeth Adnoddau Dynol | 2016 – 2017<br><br>Adrodd ar gynnydd bob blwyddyn |
| 5. Rhoi trefniadau adrodd ar waith ar gyfer y camau gweithredu uchod er mwyn monitro cynnydd. | Pennaeth Adnoddau Dynol | 2017 – 2018<br><br>Adrodd ar gynnydd bob blwyddyn |

<table>
<tr><td>Pam y byddwn yn gwneud hyn?</td></tr>
<tr><td>Ffynhonnell: Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb o’r System Gwerthuso Swyddi 2011</td></tr>
<tr><td>Roedd yr asesiad o effaith y cynllun gwerthuso swyddi yn dangos bod bwlch cyflog rhwng y rhyweddau o fwy na 10% ac wedi argymell defnyddio strategaethau gweithlu i ddelio â hyn.</td></tr>
<tr><td>Ffynhonnell: Ymgynghori ac ymgysylltu gan y Cyngor, Rhagfyr 2015</td></tr>
<tr><td>Mae pobl yn dymuno i ni barhau i geisio lleihau’r bwlch cyflog.  Awgrymwyd y dylid cynnwys grwpiau eraill sydd â nodweddion gwarchodedig hefyd.</td></tr>
<tr><td>Ffynhonnell: Strategaeth Adnoddau Dynol y Cyngor 2013 - 2017</td></tr>
<tr><td>Roeddem wedi ymrwymo i wneud y canlynol:<ul><li>cynyddu canran y rhai 16-24 oed yn y gweithlu;</li><li>sicrhau bod ein gweithlu’n adlewyrchu’r gymuned ehangach;</li><li>lansio cynllun prentisiaethau proffesiynol ar draws y Cyngor;</li><li>lleihau’r bwlch cyflog rhwng y rhyweddau 10% erbyn 2015.</li></ul></td></tr>
<tr><td>Ffynhonnell: Cynllun Gweithlu’r Cyngor 2013 - 2017</td></tr>
<tr><td>Roedd disgrifiad yng nghynllun y gweithlu o’r sefyllfa o ran cyflogaeth ym Mro Morgannwg ar adeg paratoi’r cynllun.  Dyma’r wybodaeth a gawsom:<ul><li>Bod canran anghymesur o bobl ifanc rhwng 17 a 24 oed yn ddi-waith.</li><li>Bod canran y gweithwyr rydym yn eu cyflogi sy’n Bobl Dduon neu o Leiafrifoedd Ethnig yn is nag yn y boblogaeth ehangach.</li></ul></td></tr>
</table>

- Bod canran y bobl anabl rydym yn eu cyflogi'n parhau'n is nag ym mhoblogaeth Bro Morgannwg.

- Yn ein gweithlu parhaol, roedd 76% yn fenywod a 24% yn ddynion. Roedd cymhareb y menywod i ddynion mewn ystodau cyflog hyd at £40,000 yn cyfateb yn fras i'r cydbwysedd cyffredinol rhwng y rhyweddau yn y Cyngor. Yn yr ystodau cyflog a oedd yn uwch na £40,000, roedd cymhareb y menywod i ddynion yn llai.

O ganlyniad i'r canfyddiadau hyn, cafwyd ymrwymiad yn y cynllun gweithlu i gymryd y camau canlynol:

- Roeddem am ddatblygu strategaethau i ddelio â gwahanu galwedigaethol yn ein gweithlu er mwyn hyrwyddo cyflogaeth menywod mewn galwedigaethau lle ceir dynion yn bennaf (ac fel arall).

- O dan y Cytundeb Statws Sengl, roeddem wedi ymrwymo i ymchwilio i gamau gweithredu i ddelio â gwahanu galwedigaethol yn y gweithlu a cheisio sicrhau gostyngiadau cynyddrannol yn y bwlch cyflog rhwng y rhyweddau.

- Roeddem am hyrwyddo'r Cyngor fel cyflogwr posibl i rai sy'n gadael yr ysgol ac yn dechrau yn eu gyrfa.

- Roeddem am ystyried y goblygiadau yn ein polisïau i gyflogaeth pobl ifanc a phrentisiaethau.

**Ffynhonnell: Pa Mor Deg yw Cymru? Mawrth 2011**

Yn yr adolygiad o dystiolaeth ymchwil, cafwyd bod gwahanu galwedigaethol amlwg yng Nghymru yn achos yr holl nodweddion gwarchodedig, er bod ansawdd ac amseroldeb y data yn amrywiol. Mae rhywfaint o dystiolaeth bod gwahanu galwedigaethol ar sail rhywedd yn uwch yng Nghymru nag yng ngweddill Prydain.

| |
|---|
| **Ffynhonnell: A yw Cymru'n Decach? Rhagfyr 2015** |
| Yng Nghymru:<br><br>• Roedd y bwlch cyflog rhwng y rhyweddau wedi lleihau o 20% i 17%. Roedd y bwlch wedi lleihau am fod cyflog cyfartalog dynion wedi lleihau i fwy o raddau na chyflog cyfartalog menywod.<br><br>• Mae'r rhan fwyaf o gyflogaeth menywod mewn sectorau cyflog isel o hyd.<br><br>• Roedd y bylchau cyflog wedi cynyddu yn achos pobl ifanc, lleiafrifoedd ethnig a phobl mewn grwpiau economaidd-gymdeithasol is o'u cymharu â rhai grwpiau eraill. Pobl ifanc oedd yr isaf eu cyflog o bawb erbyn 2013.<br><br>•<br><br>• Nid oedd gwelliant cyffredinol yn y gynrychiolaeth mewn rolau uwch.<br><br>• Mae anghydraddoldebau ar sail rhywedd, anabledd, ethnigrwydd a grŵp economaidd-gymdeithasol wedi parhau. Mae anghydraddoldebau rhwng pobl ifanc a grwpiau oedran eraill wedi cynyddu.<br><br>• Roedd llai na hanner y bobl anabl (42%) mewn cyflogaeth yn 2013 o'i gymharu â bron tri chwarter (71%) y bobl nad ydynt yn anabl. Roedd cyfradd diweithdra pobl anabl wedi codi i bron un ym mhob wyth.<br><br>• Roedd bylchau sylweddol o hyd yn y cyfraddau cyflogaeth rhwng lleiafrifoedd ethnig a phobl Wyn – 51% o'i gymharu â 72%. Roedd diweithdra wedi cynyddu ymysg y rhan fwyaf o grwpiau ethnig yn ystod y cyfnod hwn.<br><br>• Mae cyflogaeth ymysg pobl ifanc wedi lleihau'n sylweddol tra cafwyd cynnydd yn y |

cyfraddau cyflogaeth ymysg grwpiau oedran hŷn, gan greu bwlch sylweddol rhwng pobl iau a phobl hŷn. Roedd diweithdra ymysg rhai 16 – 24 blwydd oed wedi cynyddu fel eu bod bellach yn bedair gwaith yn fwy tebygol o fod yn ddi-waith na rhai 35 – 54 oed.

Ym Mhrydain:

- Roedd pobl wyn yn parhau i ennill 50 ceiniog yr awr yn fwy ar gyfartaledd na lleiafrifoedd ethnig.

| **Pa nodweddion gwarchodedig y mae'n eu cynnwys?** | | | |
|---|---|---|---|
| Oed | √ | Hil | √ |
| Anabledd | √ | Crefydd neu Gred | √ |
| Ailbennu rhywedd | | Rhyw | √ |
| Priodas a Phartneriaeth Sifil | | Cyfeiriadedd Rhywiol | |
| Beichiogrwydd a Mamolaeth | | | |

## 7. Effaith yr amcanion ar nodweddion gwarchodedig

Mae’r rhan fwyaf o’r amcanion hyn yn gymwys i bob un o’r nodweddion gwarchodedig. Wrth geisio eu cyrraedd, rydym yn gwneud cynnydd ar gyflawni’r ddyletswydd gyffredinol. Byddwn yn parhau i wella ein dealltwriaeth o’r hyn y mae angen ei wneud i gwrdd ag anghenion grwpiau gwarchodedig.

Dyma pam rydym yn rhoi blaenoriaeth i’r amcanion trawsbynciol hyn yn hytrach nag un bob un ar gyfer y nodweddion gwarchodedig.

## 8. Monitro a chyhoeddi canlyniadau

Byddwn yn parhau i wirio ein cynnydd ar gyrraedd ein hamcanion cydraddoldeb ac yn adrodd ar hyn bob blwyddyn i'r uwch dîm rheoli, ein Fforwm Ymgynghorol ar Gydraddoldeb, a'r Cabinet.

Byddwn yn adrodd ar gynnydd yn ein hadroddiad blynyddol ar gydraddoldeb. Byddwn yn cyhoeddi'r adroddiad hwn ar ein gwefan. Bydd yn cynnwys asesiad o effeithiolrwydd y camau rydym yn eu cymryd i gyrraedd yr amcanion cydraddoldeb.

Byddwn hefyd yn cyhoeddi gwybodaeth arall am gydraddoldeb a chyflogaeth bob blwyddyn ar ein gwefan.

## 9. Asesu effeithiau

Rydym wedi rhoi proses ar waith i werthuso'r effaith debygol ar grwpiau gwarchodedig o bolisïau neu arferion sy'n cael eu cynnig, eu hadolygu neu eu diwygio.  Byddwn yn adolygu ac yn gwella'r broses hon o bryd i'w gilydd.  Mae'r broses yn ein helpu i feddwl am effaith ein gwaith ar bob un o'r grwpiau gwarchodedig.

Rydym yn darparu hyfforddiant o bryd i'w gilydd ar asesu'r effaith ar gydraddoldeb ac mae modiwl e-ddysgu ar gael ar ein gwefan i'w defnyddio gan staff ar unrhyw adeg.

Rydym yn annog staff i gasglu a dadansoddi data i weld sut mae pobl yn defnyddio ein gwasanaethau.  Byddwn yn ceisio gwella'r broses hon bob blwyddyn drwy gynyddu nifer y gwasanaethau sy'n casglu data a'u hannog i ddadansoddi data'n well.  Gall staff gynnwys y wybodaeth hon yn eu sylfaen dystiolaeth ar gyfer asesu'r effaith ar gydraddoldeb.

Mae'r offeryn asesu ac enghreifftiau o asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb ar y dudalen Cydraddoldeb ar ein gwefan.

Byddwn yn dilyn y broses hon i asesu effaith debygol y gyllideb flynyddol.  Byddwn yn ystyried a oes perygl y bydd ein penderfyniadau'n cael effaith arwyddocaol ar grwpiau gwarchodedig.  Os byddwn yn gweld ei bod yn bosibl y bydd effaith o'r fath, byddwn yn cynnal asesiad llawn o'r effaith.

Os ceir effaith arwyddocaol, byddwn yn cyhoeddi'r manylion ar ein gwefan.

## 10. Hyfforddiant

Rydym wedi adolygu ein rhaglen hyfforddi ac wedi dadansoddi anghenion hyfforddi.

Rydym yn darparu hyfforddiant ar gydraddoldeb fel y bydd staff yn gwybod sut i ddarparu gwasanaeth teg sy'n cwrdd ag anghenion yr amrywiaeth o bobl sy'n ei ddefnyddio. Darperir y cyrsiau canlynol:

- Ymwybyddiaeth o gydraddoldeb
- Asesu'r effaith ar gydraddoldeb
- Ymwybyddiaeth o bobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol
- Ymwybyddiaeth o bobl drawsryweddol
- Ymwybyddiaeth o Iaith Arwyddion Prydain
- Dadansoddi data
- Hyfforddiant ar droseddau casineb

Yn ogystal â'r rhaglen hyfforddi cydraddoldeb, mae materion cydraddoldeb yn cael eu trafod mewn hyfforddiant corfforaethol, yn enwedig mewn hyfforddiant sefydlu a recriwtio corfforaethol.

Rydym yn dal y rhaglen hyfforddi cydraddoldeb dan sylw ac rydym yn bwriadu cynnwys nodweddion gwarchodedig eraill ynddi.

Byddwn yn parhau i ystyried sut rydym yn hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth o'r dyletswyddau cyffredinol a phenodol ymysg cyflogeion, gan gynnwys y defnydd o weithdrefnau asesu perfformiad i bennu ac ymateb i anghenion hyfforddi.

## 11. Enghreifftiau o arferion da

Rydym wedi ymrwymo i hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da rhwng pobl wahanol. Rydym yn cyflawni gwaith o bob math sy'n cyfrannu at hyn.

Dyma rai enghreifftiau o'n gwaith.

- Rydym yn cynnal rhaglenni gwaith blynyddol gyda Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth i hybu ymwybyddiaeth o faterion hil ymysg plant mewn ysgolion a gweithdai.

- Rydym yn cynnal cystadleuaeth flynyddol ar gyfer calendrau ysgol gyda Race Equality First.

- Rydym yn gweithio gyda Remploy i ddarparu cyfleoedd swyddi.

- Rydym yn cynnal digwyddiad blynyddol ar Ddiwrnod Cofio'r Holocost.

- Rydym yn ceisio cyrraedd lefelau uwch yn safonau anabledd Insport. Dyfarnwyd y safon Efydd i ni. Rydym yn ceisio cyrraedd y safon Arian yn awr.

- Mae gennym Fforwm Sipsiwn a Theithwyr sy'n gallu ymateb yn gyflym er mwyn asesu anghenion lles Sipsiwn a Theithwyr pan fyddant yn cyrraedd Bro Morgannwg.

- Rydym yn cefnogi fforwm Vale 50+, grŵp ymgysylltu cyhoeddus gweithgar iawn sy'n cynnig llais i rai dros 50 oed.

- Dyfarnwyd statws 'Tref Ystyriol o Ddementia' gan Gymdeithas Alzheimer's i'r Barri, y dref fwyaf ym Mro Morgannwg. Mae gennym grŵp llywio gweithgar sy'n sicrhau ein bod yn cyflawni ein cynllun gweithredu. Mae gennym nifer sylweddol o ffrindiau Dementia hyfforddedig.

- Mae gennym weithgor cynhwysiant digidol sy'n datblygu strategaeth i helpu mwy o bobl i fynd ar-lein. Mae staff ein llyfrgelloedd yn hyrwyddwyr digidol sy'n gallu helpu'r

cyhoedd drwy ateb ymholiadau.  Mae cyfrifiaduron ar gael i'r cyhoedd mewn llyfrgelloedd.  Mae'r tîm Dysgu Oedolion yn y Gymuned a llyfrgelloedd yn cynnig dewis o raglenni hyfforddi cynhwysiant digidol. Rydym wedi gwella'r ddarpariaeth wi-fi mewn cartrefi gwarchod ac yn bwriadu gwneud hyn mewn cartrefi gofal.

- Rydym yn darparu trafnidiaeth gymunedol y Llwybr Gwyrdd mewn ardaloedd gwledig a threfol.  Mae hyn yn cynnwys bysiau y mae'n hawdd i bobl anabl eu defnyddio.  Mae'r Llwybr Gwyrdd yn helpu pobl sydd heb gludiant i gyrraedd gwasanaethau a rhyngweithio'n gymdeithasol.

- Rydym yn darparu bws i Dinas Powys Voluntary Concern, gwasanaeth cymorth cymunedol lleol.  Mae'n helpu i gludo pobl i ganolfan feddygol newydd nad yw'n hawdd ei chyrraedd.

- Mae gennym gerbyd TREV (The Reassurance and Engagement Vehicle) sy'n ein helpu i rannu gwybodaeth am ddiogelwch yn y gymuned.

- Rydym yn darparu cyngor ar gydraddoldeb drwy Cyngor ar Bopeth.

- Rydym yn cefnogi Bore Coffi i Bobl Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurywiol a Thrawsryweddol drwy Race Equality First.

- Rydym yn cefnogi Fforwm Gyrwyr Tacsis drwy Race Equality First.

- Rydym yn cefnogi Fforwm Anabledd drwy Race Equality First.

- Rydym yn treialu cynllun prynu gwyliau blynyddol i roi mwy o hyblygrwydd i staff wrth reoli eu cydbwysedd bywyd a gwaith.

Rydym wedi ymrwymo i barhau â'r gwaith hwn.  Mae rhagor o enghreifftiau yn ein hadroddiadau blynyddol ar gydraddoldeb:

http://www.valeofglamorgan.gov.uk/en/our_council/equalities/Annual-Equality-Monitoring-Report.aspx

## Atodiad 1

**Cyngor Bro Morgannwg**

**Adroddiad ar ymgysylltu ynghylch amcanion cydraddoldeb**

**Rhagfyr 2015**

## Cyflwyniad

Cynhaliwyd adolygiad o Gynllun Cydraddoldeb Strategol ac Amcanion Cydraddoldeb y Cyngor rhwng 28 Hydref a 18 Rhagfyr.  Pwrpas yr adolygiad oedd ymgynghori â defnyddwyr gwasanaethau cynrychiadol o grwpiau gwarchodedig, a phartneriaid strategol, i sicrhau bod yr Amcanion Cydraddoldeb yn rhoi sylw i'r materion sydd bwysicaf ym marn preswylwyr Bro Morgannwg.  Casglwyd sylwadau hefyd am unrhyw faterion eraill yr oedd preswylwyr yn credu y dylid eu cynnwys yn yr Amcanion Cydraddoldeb.

## Methodoleg

Anfonwyd ffurflen ymgysylltu i 42 o sefydliadau lleol sy'n cynrychioli pobl mewn grwpiau gwarchodedig, a oedd wedi'u rhestru mewn cyfeiriadur, i ofyn eu barn am Amcanion Cydraddoldeb y Cyngor.  Roedd y ffurflen yn cynnwys trosolwg ar yr hyn yr oedd y Cyngor wedi'i wneud eisoes i gyrraedd yr amcanion.

Roedd y ffurflen ymgysylltu a ffurflen ar-lein ar gael ar dudalen ar wefan y Cyngor. Cafodd y dudalen hon ei hyrwyddo ar gyfryngau cymdeithasol, drwy ddefnyddio cyfrifon corfforaethol y Cyngor ar Twitter a Facebook.

Hysbyswyd staff y Cyngor am yr adolygiad yn Core Brief, cylchlythyr mewnol, a rhoddwyd cyfle iddynt rannu eu barn drwy lenwi'r ffurflen ymgysylltu neu'r ffurflen ar-lein.

Roedd Swyddog Ymgysylltu Cyhoeddus y Cyngor wedi cymryd rhan mewn bore coffi lleol ar gyfer pobl lesbiaidd, hoyw, ddeurywiol a thrawsryweddol i drafod yr amcanion cydraddoldeb a chasglu adborth.  Roedd Race Equality First, sefydliad sy'n cael ei ariannu'n rhannol gan y Cyngor i weithio gyda grwpiau gwarchodedig yn y gymuned, hefyd wedi siarad â grŵp Rainbow Women a Fforwm Gyrwyr Tacsis ac wedi ymweld â Mosg lleol i gasglu adborth ar ran y Cyngor.

## Canlyniadau

Cafwyd 15 o ymatebion i'r arolwg ar-lein. Roedd 5 grŵp neu sefydliad lleol wedi rhoi o'u hamser i lenwi'r ffurflen ymgysylltu i anfon eu hadborth atom ac ymwelwyd â 4 grŵp lleol a roddodd adborth llafar. Mae rhestr isod o sefydliadau y cysylltwyd â nhw a'r rheini a ymatebodd.

| **Sefydliad** |
|---|
| Advocacy Matters (Wales) |
| Age Connects – Caerdydd a Bro Morgannwg |
| Age Cymru |
| Atal y Fro |
| BAWSO |
| Canolfan Gwasanaethau Gwirfoddol y Fro |
| Cardiff Vales and Valleys (rhan o Grŵp RNIB) |
| Carers UK – Cangen Bro Morgannwg |
| Chwaraeon Anabledd Cymru – Cyngor Bro Morgannwg |
| Chwarae Teg |
| Crossroads Care in the Vale |
| Cyngor Ffoaduriaid Cymru |

| |
|---|
| Cymdeithas Alzheimer's – Cangen Caerdydd a'r Fro |
| Cymdeithas Bêl-droed Pobl Fyddar Llanilltud Fawr |
| Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth – Cangen Caerdydd a'r Fro |
| Cymdeithas Gofal Hafod |
| Cymdeithas Mencap y Barri a'r Cylch |
| Cymorth i Ferched Cymru |
| Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth |
| Diverse Cymru |
| Filipino Association for Community Empowerment |
| Fforwm Ieuenctid y Fro |
| Fforwm Strategaeth Pobl Hŷn y Fro |
| Fforwm y Strategaeth 50+ |
| Grŵp Cymorth Iechyd Meddwl – Dwyrain Bro Morgannwg |
| Grŵp Cymorth Strôc Bro Morgannwg |
| Gypsies and Travellers Wales |
| HAFAL – Bro Morgannwg |
| Home Access Trust |
| LGCM De Cymru (Mudiad Cristnogion Lesbiaidd a Hoyw) |

| |
|---|
| Menter Bro Morgannwg |
| Mind in the Vale of Glamorgan |
| Multiple Sclerosis Society – Cangen Caerdydd a'r Fro |
| Race Equality First |
| Remploy |
| Rising STAR Orphans |
| Stonewall Cymru |
| Sunshine Club |
| The Rainbow Women's Group |
| Transgender Awareness Wales |
| ValePlus |
| Women Connect First |

Gofynnwyd i'r ymatebwyr a ddylai'r Cyngor barhau i weithio ar bob un o'r Amcanion Cydraddoldeb. Dyma eu hymateb.

## Amcan 1 – Casglu data i weld pwy sydd a phwy nad yw'n defnyddio ein gwasanaethau.

O'r 20 o ymatebion ysgrifenedig, dywedodd 14 y dylai, dywedodd 5 y dylai ar ôl gwneud newidiadau, a dywedodd 1 na ddylai.

Pan ofynnwyd iddynt nodi'r newidiadau yr hoffent eu gweld, dywedodd yr ymatebwyr:

- Newidiwch y ffurflen monitro cydraddoldeb i gynnwys ‘arall’ a lle i’r person ysgrifennu sut mae’n disgrifio ei hunaniaeth: mae ‘gwrywaidd’ neu ‘benywaidd’ yn rhy gyfyng.

- Dylai barhau ond dylai’r holl wybodaeth fod ar gael ar wefan y Cyngor… Pa newidiadau a wnaed yng ngwasanaethau’r Cyngor wedi i’r data hyn ddangos nad yw grwpiau gwarchodedig penodol yn defnyddio gwasanaethau?

- Nid yw’r rhan fwyaf o aelodau’r cyhoedd yn hoffi’r cwestiynau mwy ymyrgar/personol ynghylch rhywioldeb a chrefydd. Os gellid hepgor y rhain, byddai hyn yn gwella ein perthynas â chwsmeriaid.

- Rydym yn argymell bod yr amcan hwn yn cynnwys: “Casglu a chyhoeddi data ar fodlonrwydd ar wasanaethau a’u haddasrwydd i bobl mewn gwahanol grwpiau gwarchodedig.”

- Mae angen gwerthuso beth rydym yn ei gasglu’n fwy gofalus, pam rydym yn ei gasglu a beth rydym yn ei wneud ag ef wedyn.

Roedd yr ymatebydd a ddywedodd na ddylid parhau â’r amcan wedi dweud mewn ymateb i gwestiwn am ei reswm dros ei ateb ei fod yn ‘wastraff amser ac arian’.

Mae’r ymatebion hyn yn dangos, er bod sefydliadau sy’n bartneriaid i ni yn cydnabod y pwysigrwydd o adnabod rhwystrau i wasanaethau, y byddai’n werth egluro’n well i aelodau o’r cyhoedd pam y mae’r Cyngor yn casglu’r wybodaeth hon a sut rydym yn bwriadu ei defnyddio.

## Amcan 2 – Gwneud dogfennau’n haws eu darllen a’u deall gan y cyhoedd.

Roedd 18 o’r 20 o ymatebwyr wedi dweud y dylai’r Cyngor barhau i weithio ar hyn. Dywedodd y ddau ymatebydd arall y dylai barhau ar ôl gwneud newidiadau. Eu hawgrymiadau oedd:

- Parhewch â'r fenter hon a'i gwella.  Roedd y rhan fwyaf o'r bobl y buom yn siarad â nhw wedi dweud eu bod yn cael bod gwybodaeth y Cyngor yn rhy gymhleth ac nad yw'n ddealladwy. Mae hefyd yn bwysig darparu cyfieithiad o ffurflenni i ieithoedd cymunedol os oes angen / os gwneir cais.

- Mae'n bwysig darparu fersiynau hawdd eu darllen neu grynodebau o ddogfennau yn ogystal ag iaith glir ar gyfer pobl sydd â dyslecsia, anawsterau dysgu a phobl o gymunedau Sipsiwn a Theithwyr.  Ond dylid hefyd gynnwys dolen i'r 'fersiwn lawn' gan y bydd rhai pobl am gael yr holl wybodaeth.

- Mae hyn yn dangos bod angen i'r Cyngor cyfan wella'r ffordd o gyfleu gwybodaeth i aelodau o'r cyhoedd, yn enwedig wrth gasglu gwybodaeth bwysig ar ffurflenni neu ddosbarthu negeseuon pwysig.

## Amcan 3 – Codi ymwybyddiaeth o gydraddoldeb

Pan ofynnwyd a ddylai'r Cyngor barhau i weithio ar hyn, dywedodd 15 o'r 20 o ymatebwyr y dylai, dywedodd 3 y dylai ar ôl gwneud newidiadau a dywedodd 2 na ddylai. Roedd y rheini a ddywedodd y dylai ar ôl gwneud newidiadau wedi awgrymu'r canlynol:

- Beth am ddathlu amrywiaeth y staff a'r preswylwyr mewn ffordd fwy gweladwy? Nid ydym yn sicr sut y gallech wneud hyn ond mae storïau personol yn y wasg yn un ffordd bosibl a diwrnodau dathlu yn bosibilrwydd arall.

- Gwneud hyn mewn ysgolion a chymunedau.

- Dylai cydraddoldeb fod yn llinyn arian drwy waith y Cyngor yn hytrach na'i weld yn waith i'r adran gydraddoldebau.  Dylai rhai adrannau gymryd cyfrifoldeb uniongyrchol dros rai o'r mentrau cydraddoldeb.

- Roedd y rheini a ddywedodd na ddylai wedi nodi nad oedd angen gwneud hyn a bod lefel yr ymwybyddiaeth yn uchel yn barod. 'It should be just part of what the council does. Cuts mean that this extra promotion is not a priority'.

Mae hyn yn dangos bod cefnogaeth i'r amcan hwn. Roedd hyd yn oed y rheini a ddywedodd na ddylem barhau i weithio ar hyn yn credu ei fod yn rhywbeth a ddylai gael ei gyflawni gan holl adrannau'r Cyngor ac na ddylai fod yn flaenoriaeth i un tîm.

## Amcan 4 – Cynnwys pobl sydd â nodweddion gwarchodedig.

Roedd yr holl ymatebwyr yn credu y dylai'r Cyngor barhau i weithio ar hyn.  Nid oedd yr un o'r ymatebwyr wedi awgrymu newidiadau yn yr amcan hwn. Er hynny, roedd rhai wedi cynnig sylwadau ychwanegol, er enghraifft:

- Rwyf yn credu bod rhaid cael cronfa o grwpiau sy'n gallu cymryd rhan yn y broses hon gan gynnwys yr holl nodweddion gwarchodedig.

- Gall nodweddion gwarchodedig fod yn ffactor mewn cyflawniad addysgol. Mae angen i'r Cyngor wella neu newid rhaglenni addysg er mwyn delio â'r tangyflawni mewn rhai cymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig.

- Mae hyn yn dangos bod yr holl ymatebwyr yn cytuno y dylai pobl mewn grwpiau gwarchodedig gael eu cynnwys wrth ddatblygu polisïau'r Cyngor fel y Cynllun Cydraddoldeb Strategol.

## Amcan 5 – Rhoi gwybod am aflonyddu a gwahaniaethu

Roedd 18 o'r 20 o ymatebwyr yn cytuno y dylai'r Cyngor barhau i gymell pobl i roi gwybod am aflonyddu a gwahaniaethu.  Cytunai 2 ymatebydd y dylai barhau gan awgrymu'r newidiadau canlynol:

- Rydym yn argymell ychwanegu cam gweithredu ar gyfer addysg yn y gymuned yn yr amcan hwn…

- Rydym yn argymell ychwanegu cyfeiriad at gydweithio â phartneriaid eraill ym maes diogelwch cymunedol i fynd i'r afael â rhagfarn a gwahaniaethu a lleihau troseddau casineb ac aflonyddu.

Roedd yn glir o'r drafodaeth yn y bore coffi i bobl lesbiaidd, hoyw, ddeurywiol a thrawsryweddol fod aflonyddu a gwahaniaethu yn fater o bwys i'r gymuned drawsryweddol. Dywedodd y grŵp eu bod yn rhoi gwybod am ddigwyddiadau ond eu bod yn teimlo nad yw hyn yn ddigon i atal pobl rhag aflonyddu arnynt o ddydd i ddydd. Awgrymwyd bod angen cydymdrech gan y Cyngor a'r Heddlu i fynd i'r afael â'r mater hwn.

## Amcan 6 – Trais domestig (hybu ymwybyddiaeth a hyder i ddefnyddio gwasanaethau cymorth cam-drin domestig).

O'r 20 o ymatebwyr, dywedodd 16 y dylai'r Cyngor barhau i weithio ar hyn, dywedodd 2 y dylai ar ôl gwneud newidiadau, ac roedd dau heb ymateb. Dywedodd y rheini a awgrymodd newidiadau:

- Mae angen rhoi proffil uwch i hyn.

- Mae angen gwneud y rolau'n gliriach.

Yn ystod y drafodaeth â'r grŵp o bobl lesbiaidd, hoyw, ddeurywiol a thrawsryweddol, dywedodd un ymatebydd 'there is not enough focus on emotional abuse' a dywedodd un arall 'it is not always women who are being abused and it is not always in heterosexual relationships but this is how it is portrayed in the media'.

Ychwanegodd un o'r sefydliadau sy'n bartneriaid i ni: 'There needs to be more robust monitoring of how useful or well used the Council's Domestic Abuse support is and how confident their staff feel about using it.'

Yn yr un modd ag amcanion eraill, mae'n glir bod ymatebwyr yn cytuno y dylai'r Cyngor barhau i weithio ar hyn, er bod mwy y gellir ei wneud i helpu pobl yn y gymuned a chodi ymwybyddiaeth o'r cymorth sydd ar gael drwy sefydliadau sy'n bartneriaid i ni.

## Amcan 7 – Lleihau'r bwlch cyflog rhwng y rhyweddau

Dywedodd 16 o'r 20 o ymatebwyr y dylai'r Cyngor barhau i weithio ar hyn, dywedodd 1 y dylai ar ôl gwneud newidiadau, a dywedodd 2 na ddylai. Dywedodd yr ymatebydd a awgrymodd newidiadau:

- 'To include all sexual orientations, why just male/female?'

Cafwyd yr esboniad canlynol gan un o'r ymatebwyr a ddywedodd na ddylai'r Cyngor barhau â'r gwaith hwn:

- 'job evaluation should have sorted this shouldn't it? If people are doing the same job or an equivalent job they should be paid the same.'

Mae mwyafrif yr ymatebwyr o blaid gweld y Cyngor yn parhau i weithio ar yr amcan hwn.

## Casgliad

Ar ôl adolygu'r ymatebion a gafwyd yn ystod yr ymgynghoriad, mae'n amlwg bod aelodau o'r gymuned, sefydliadau sy'n bartneriaid i ni a staff y Cyngor yn cytuno ar yr amcanion a nodwyd. Er bod rhai newidiadau wedi'u hawgrymu, ni chafwyd awgrymiadau am gamau gweithredu eraill a ddylai gael blaenoriaeth dros yr amcanion hyn. Felly, rydym yn awgrymu y dylai'r Cyngor barhau i weithio ar yr amcanion hyn.